# Y CARDI BACH

Papur Bro Dyffryn Taf

Cariad o beth Cardi Bach

Rhifyn 456 | Tachwedd-Rhagfyr 2024 | Pris £1.50

## PLANT MEWN ANGEN



Cylch Meithrin Hywel Dda ar ddiwrnod Plant Mewn Angen



Ysgol Hafodwenog yn eu pyjamas ar ddiwrnod Plant Mewn Angen

## LLWYDDIANT EISTEDDFOD



CFfI Penybont, enillwyr y darian am y nifer fwyaf o farciau yn Eisteddfod CFfi Sir Gâr

## Sioe Ffasiynau er budd Elusen Tir Dewi



Yn y llun gwelir Olyv ac Yvonne o siop Pethau Olyv gyda'r Archddeacon Eileen Davies oedd yn cynrychioli'r Elusen Tir Dewi. Codwyd swm anrhydeddus ar y noson.

(Adroddiad ar dudalen 27/28}

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I HOLL DDARLLENWYR Y CARDI BACH



## Y CARDI BACH

| | |
|---|---|
| **Golygydd, Cadeirydd a Dosbarthwr** | Eurfyl Lewis 01994 419495 |
| **Is-gadeirydd:** | Iola Wyn 07870 100831 |
| **Ysgrifennydd:** | Beti Wyn James 01994 230966 |
| **Trysorydd** | Rosemarie Davies 01994 419005 |
| **Trysorydd y Clwb '200':** | Rhian White 01994 231338 |
| **Cysodwyr:** | Wyn a Meirwen Evans 01994 448447 |
| **I'ch diddori** | John Arfon Jones 01994 240536 |
| **Cornel y Dysgwyr::** | Albie Abbott 01239 831641 |
| **Tudalen y Plant:** | Llinos Mair Thomas |
| **Llewyrch i'm Llwybr:** | Eurfyl Lewis |
| **Cornel Coginio:** | Winnie James-Phillips 01239 831754 |
| **Cornel Llên:** | Marian Thomas 01994 230121 |

Newyddion, Lluniau, Erthyglau a Hysbysebion i'w hanfon erbyn **<u>10fed</u>** o bob mis, drwy e-bost os yn bosib, i Meirwen Evans, Y Felin, Cwmfelin Mynach, Hendygwyn-ar-Daf, SA34 0DH.

e-bost: ycardibach@btinternet.com



Nid yw'r Bwrdd Golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a gyhoeddir yn Y Cardi Bach.



Argraffwyd gan:Gwasg Aeron Cyf. Aberaeron. 01545 571115

CYMRAEG

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'.


# Colofn y Mis

*gan Iola Wyn, San Cler*

Mae'r pwdin Nadolig wedi colli ei boblogrwydd, yn ôl arolwg diweddar gan y Bathdy Brenhinol sy'n cynhyrchu arian yn Llantrisant. Dywedodd 59% o'r rhai a gafodd eu holi nad ydyn nhw'n meddwl bod y pwdin traddodiadol yn allweddol ar y 25ain o Ragfyr. A doedd tri chwarter y rhai a gafodd eu holi erioed wedi clywed am y traddodiad o baratoi'r pwdin ar y Sul olaf cyn yr Adfent, gyda phobl yn dod ynghyd ar gyfer yr achlysur. Wrth gwrs, roedd gan y Bathdy ddiddordeb yn hynny am eu bod yn hyrwyddo darn chwe cheiniog. Bydd y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod bod y darnau arian hynny yn arfer cael eu cuddio mewn pwdin Nadolig er mwyn dod â lwc dda i bobl, ond mae'r traddodiad hwnnw wedi colli tir bellach.

Yn bersonol, dydw i ddim yn or hoff o'r pwdin Nadolig, ond fe wna i ei fwyta am un diwrnod y flwyddyn, er gwaetha'r ffaith mod i wedi gor lenwi fy mol gyda thwrci, stwffin a grefi, a'r amrywiaeth eang iawn o lysiau, heb anghofio'r soch mewn sach! (Pigs in Blanket)

Ond mae sawl traddodiad yn ystod yr hydref a'r gaeaf yn colli tir gyda rhai yn magu poblogrwydd. Pan ro'n i'n blentyn, roedd noson Guto Ffowc yn achlysur mawr, a 'dw i'n cofio'r wefr o weld olwyn Catrin yn chwyrlïo, yr ofn wrth glywed rocedi yn tanio heb anghofio'r cynnwrf wrth chwifio ffyn gwreichion. Bach iawn o sylw oedd i Galan Gaeaf bryd hynny, er mi rydw i'n cofio twco afalau yn Adran yr Urdd yn Ysgol Rhydypennau ac wedi gwisgo fel gwrach, neu yn hytrach ro'n i wedi rhoi sach sbwriel ddu dros fy mhen. Ond bellach mae Calan Gaeaf, a'r arfer o fynd o dŷ i dŷ a chwarae cast neu geiniog yn llawer mwy poblogaidd na Noson Tan Gwyllt. Ac mae'r arfer hwnnw o ymweld â chartrefi, yn llawer mwy poblogaidd na'r traddodiad Cymreig o Hel Calennig ar fore dydd Calan. Ac mae hynny'n drueni mawr yn y fy marn i.

Ond mae'n rhaid derbyn fod traddodiadau yn mynd a dod - rhai yn ennill poblogrwydd ac eraill yn eu colli. Ond mae un traddodiad yn dal ei dir yn gadarn yn ein tŷ ni bob Dolig – gadael y chocolate Bountys ar ôl! Os glywch chi am unrhyw un sy'n eu hoffi, rhowch wybod – mae digonedd yn sbâr yma bob blwyddyn!

Nadolig Llawen i chi, a Blwyddyn Newydd Dda, pan ddaw!

---


## HYSBYSEBIAD SWYDD
## CYSODWR / CYSODWYR
## Y CARDI BACH

**Angen rhywun i gysodi'r Cardi Bach bob mis.**

**Angen sgiliau TGCH i ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol Adobe InDesign**

**Dyddiad dechrau: rhifyn Medi 2025**

**Tâl: tua £300 y rhifyn. 10 rhifyn y flwyddyn.**

Am fwy o wybodaeth cysyllter â:
Eurfyl Lewis, Cadeirydd (eurfyllewis@btinternet.com)
Beti-Wyn James Ysgrifennydd (betiwynjames@aol.com)

## GOHEBWYR LLEOL

ALMA: Margaret Evans
01994 230761
BANCYFELIN: Merle Jones
01267 211300
eleanormerle@icloud.com
CAPELI BANCYFELIN a CANA
Parch, Beti-Wyn James
beti.wyn@icloud.com
BLAENWAUN: Tegwen James
01994 448223
CAPEL MORIAH (Blaenwaun) Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
CEFNYPANT: Valerie Davies
01994 448475
vdavies55@outlook.com
CLUNDERWEN: Lynys Davies
01437 563319
mam_dadbox@yahoo.co.uk
CWMBACH: Jane Evans
01994 448790
teulujames@btinternet.com
CWMFELIN MYNACH: Nansi Evans
01994 448392
EFAILWEN: Angharad Booth Taylor
01994 419221
angharad.boothtaylor@btinternet.com
GELLIWEN: Peter Crowdie
01994 230033
peter.crowdie@btinternet.com
HENDY-GWYN: Heather Jenkins
01994 240138
jenkinsh2809@gmail.comY
(Newyddion Tabernacl) Parch. Guto Llywelyn
01269 851655
gutollywelyn@hotmail.com
HENLLAN - FALLTEG: Sian Jackson
01994 240981
jacksonfawr@btinternet.com
LOGIN a CWM MILES Meinir Eynon
01437 563540
meinireynon@gmail.com
LLANBOIDY: Norah Heseltine
01994 448241
sales@shwldimwl.com
LLANDYSILIO: Delyth Roblin
07882 639867
delythroblin@outlook.com
LLANGLYDWEN: Jill Lewis
01994 419495
jill.lluest@gmail.com
LLANGYNIN: Susan Phillips
01994 231066
siwperiw@gmail.com
MEIDRIM: Patsy Lewis
01994 230369
talarwen@hotmail.com
PENYBONT: Linda Davies
01994 484657
lindadavies02061955@icloud.com
PWLLTRAP: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
RHYDYCEISIAID: Doreen Adams
01994 240581
RHYDWILYM: Eilir Davies
01994 419649
eilirtyrhos@btinternet.com
SAN CLER: Beti Wyn James
01994 230966
betiwynjames@aol.com
TRELECH: Alyson Harries
01994 484359
alysonharries@btconnect.com

# LLEWYRCH I'M LLWYBR

*gan Hedd Ladd-Lewis*

### Croes yn yr eira:

Mae gan arweinwyr a llywodraethau Rwsia hanes ddi-dor o drais a pharodrwydd i ymosod ar unigolion a mudiadau sy'n herio'r drefn drwy gweithred a gair. Dyma wladwriaeth ble nad yw'r awdurdodau a'r arweinwyr yn parchu hawliau dynol a rhyddid barn. Ond, mae yna filoedd o unigolion dewr yn Rwsia, a hynny ers y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wedi dewis dilyn y llwybr anodd a dangos parodrwydd, er gwaethaf y peryglon, i brotestio a gwrthod cydymffurfio yn wyneb yr anghyfiawnderau enfawr sy'n y wlad.

Un o'r unigolion hynny oedd yr academydd a'r meddyliwr Alexander Solzhenitsin [ 1918 – 2008]. Roedd yn awdur toreithiog defnyddiodd ei ddawn lenyddol i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa fel ag yr oedd yn Rwsia Gomiwnyddol. Ac yntau yn Gristion o argyhoeddiad penderfynodd fod yn rhaid iddo weithredu. Dyma ddywedodd:

***You can resolve to live your life with integrity. Let your credo be this: Let the lie come into the world, let it even triumph. But not through me.***

Oherwydd ei amharodrwydd i gadw'n dawel a gwrthod byw celwydd a phlygu i'r drefn Gomiwnyddol fe'i gosbwyd yn llym. Cafodd ei arestio a'i ddedfrydu i 8 mlynedd o lafur caled yn un o wersylloedd y 'Gulag' yn Nwyrain Rwsia. Erbyn y 1960au roedd wedi dod i amlygrwydd ryngwladol trwy gyfrwng ei nofelau ac yn 1970 enillodd y Wobr Nobel am lenyddiaeth. Dim ond yn 1973 byddai'n gallu casglu'r wobr a hynny wedi iddo cael ei ryddhau a'i alltudio o Rwsia.

Nid pawb byddai'n goroesi'r 'Gulags'. Rhaid oedd llafurio yn y coedwigoedd neu'r mwynfeydd, gweithio diwrnodau 12 awr ym mhob tywydd a cael eu trin yn giaidd gan y goruchwylwyr. Un diwrnod wedi dioddef blynyddoedd o gamdriniaeth, ac heb wybod fod ganddo gyfeillion a chefnogwyr lu yn deisyfu ar ei ran yng Ngorllewin Ewrop, yr Unol Daleithiau a thu hwnt, fe benderfynodd na allai gario 'mlaen. Roedd wedi cyrraedd pen ei denyn. Eisteddodd i lawr, taflodd ei gaib naill ochr ac arhosodd i weld beth a wnai'r goruchwyliwr. Ond, wrth aros, a'r anobaith yn llifo drosto, cerddodd hen ŵr ato, un oedd hefyd wedi bod yn garcharor am amser maith. Heb yngan gair, cydiodd yr hen ŵr mewn darn o bren, ac wrth draed Solzhenitsin fe dynodd lun o groes yn yr eira. Rhoddodd y darn pren o'r neilltu, gwenodd a cherddodd i ffwrdd. Dyna'r tro cyntaf a'r tro olaf i Solzhenitsin weld yr hen ŵr ac wedi iddo gamu o'r neilltu dywedodd Solzhenitsin iddo deimlo rhyw dawelwch meddwl a llais bach yn dweud wrtho i ddyfalbarhau â'i frwydr dros hawliau a chyfianwder yn Rwsia. Wrth iddo edrych ar y groes yn yr eira fe newidiodd ei bersbectif yn llwyr.

Adroddodd yr hanes wedi iddo dderbyn lloches yn yr Unol Daleithiau. Gwyddai mai un dyn ydoedd yn brwydro yn erbyn holl rym y drefn Gomiwnyddol yn Rwsia, ond gwyddai hefyd mai trwy rym y groes roedd unrhyw beth yn bosibl. Wrth syllu ar y groes yn yr eira fe'i atgyfnerthwyd. Gwyddai fod yn rhaid iddo oroesi er mwyn gallu adrodd hanes ei gyd garcharorion yn y 'Gulag'. Yn allannol, doedd dim wedi newid, cododd, cydiodd yn ei gaib ac aeth yn ôl i'w waith. Ond, roedd wedi ei adnewyddu. Toddodd yr eira a diflanodd y groes ond dywedodd i nerth y weithred syml honno gan hen ŵr na wyddai ei enw, ail danio ei gred fod Iesu yn cyd gerdded âg ef. Bu'r groes syml yn yr eira yn fodd o'i gynnal gweddill ei garchariad a chamdriniaeth y llafur gorfodol, a hynny hyd nes iddo adael Rwsia.

# Posau John Arfon

**Dyma atebion posau'r mis diwethaf**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| O | X | X | O | O | X |
| X | O | O | X | X | O |
| O | O | X | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |
| O | O | X | O | X | X |
| X | X | O | X | O | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9 | 7 | 6 | 2 | 3 | 4 | 5 | 1 | 8 |
| 5 | 3 | 2 | 7 | 8 | 1 | 6 | 9 | 4 |
| 8 | 4 | 1 | 5 | 6 | 9 | 2 | 3 | 7 |
| 7 | 6 | 8 | 4 | 1 | 3 | 9 | 5 | 2 |
| 1 | 2 | 5 | 9 | 7 | 8 | 3 | 4 | 6 |
| 3 | 9 | 4 | 6 | 5 | 2 | 7 | 8 | 1 |
| 6 | 8 | 7 | 3 | 4 | 5 | 1 | 2 | 9 |
| 2 | 1 | 3 | 8 | 9 | 7 | 4 | 6 | 5 |
| 4 | 5 | 9 | 1 | 2 | 6 | 8 | 7 | 3 |

**Atebion y cwis llythyren C**

1. Caledfwlch, 2. Ceiriog, 3. Caerfyrddin, 4. Cardi, 5. Castell Cennen, 6. Captain Cat, 7. Cenhinen, 8. Cadair, 9. Conwy, 10. Carnabwth, 11. Culhwch, 12. Cynan.

Yn y Parau YM yw'r ddwy lythyren ganol i fod ym mhob gair, felly dyma y 6 gair sydd yn atebion:
CLYMAU, CRYMAN, GRYMUS, GWYMON, PLYMIO, TWYMYN.

**Yn ôl yr arfer dyma Cencen Chwillrif i'ch diddori**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| X | O | | | X | |
| | | | | | |
| | | | | O | |
| | | X | | | X |
| | | | X | | |
| | | X | X | | O |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | 3 | | | 7 | | |
| | 2 | | | 9 | | | | |
| | 1 | | | | | | 2 | 6 |
| 3 | | | | | | | | 4 |
| | | 4 | 5 | | 1 | | | |
| | 9 | 5 | | 7 | | | | |
| | | | 7 | | 4 | | | 3 |
| 4 | | | 9 | | | 2 | | |
| 1 | | 2 | | 3 | 5 | | 7 | 9 |

Hoffwn yn gyntaf ddiolch yn garedig i bawb sydd wedi cefnogi yr holl bosau rwyf wedi eu gosod o'ch blaen ers llawer o flynyddoedd bellach. Tybed a oes rhywun yn cofio y cyntaf a roddais ger eich bron a phryd oedd hwnnw.


***Am mai hwn efallai fydd y tro olaf imi roi cystadlaethau yn y Cardi Bach oherwydd fod y llygaid a'r golwg wedi gwaethygu'n arw yn y misoedd diwethaf, rwyf wedi penderfynu rhoi tair cystadleuaeth ichwi y tro hwn a bydd gwobrau o £5 i'r cyntaf a £3 i'r ail am atebion cywir i'r dair rhan.***

Cymerir ch, dd, ff, ng ac yn y blaen fel un llythyren, ym mhob un o'r posau yr wyf wedi eu gosod o'ch blaen.

**A)**

Y gyntaf ohonynt yw'r Pôs y Cerdyn Nadolig. Fel y gwelwch rwyf wedi derbyn 7 cerdyn yn barod ond mae enwau fy ffrindiau wedi eu cymysgu. Ceisiwch ddargan-fod eu henwau a thrwy wneud hyn dylech ganfod enw y person olaf rwyf yn disgwyl clywed oddi wrth trwy ddarllen o gongl i gongl.

**CERDYN NADOLIG**





Ail drefnwch y llythrennau

1. NID OI LE
2. AGOR ENW
3. ADYN FWG
4. WENCI NE
5. CWYD NEL
6. NOD BLEW
7. ENWI RHAN

**B)** Yr ail ran yw cwblhau y canlynol:

Ceisiwch gwblhau cloc y cwch gwenyn yma.
Mae'n rhaid i bob ateb fynd o gwmpas rhif y cwestiwn a dilyn cyfeiriad y saeth sydd ar ochr man lle mae'r ateb i fod. Mae'r atebion i rifau 1, 3, 5, yn dilyn dwylo'r cloc (clocwedd), ond mae atebion rhifau 2, 4, 6, yn cael ei rhoi yn groes i symudiad dwylo'r cloc. Mae ateb rhif 1 yn dechrau gyda'r llythyren a ddangosir.

Cymerir ch, dd, ff, ac yn y blaen fel un llythyren.




**Dyma'r cliwiau**


**1.** Ennill BA neu BSc **2.** Delio â **3.** Gŵr drwg **4.** Gorffen.

**5.** Deall neu amgyffred **6.** Mynd am dro **7.** Sir Orllewinol Lloegr

**8.** Mynd yn fwy **9.** Addewid **10.** Set derbyn adloniant

**11.** Mewn unrhyw ffordd **12.** Adar newydd ddeor

**c)** Yn y trydydd pôs mae'n rhaid ichwi gwblhau y Croesair y Goeden Nadolig.



*Cliwiau drosodd*

**Ar Draws**

2. Tawch sigaret (3) 5. Brawd Cain (4) 7. Llusern (4) 9. Nodyn yn gofyn am daliad dyledus (3)
11. Teimlad cryf o ddicter (3) 13. Unrhyw arwyneb crwn (4) 14. Enillion ariannol neu ffi (3)
15. Lliw (4) 19. Unrhyw le (4) 20. Enw Cymraeg Brenhines yr Iceni (5) 21. Enw'r Eidalwyr ar Rufain (4)
22. Hoffi bod ac awydd (6) 23. Dod yn ôl i'n cyflwr blaenorol (5) 26. Ysbryd drwg yn temtio (6)
28. Gardd hyna'r byd (4) 30. Cyfenw Dafydd y canwr (4) 32. Saim gwneud cannwyll (4)
34. Diferion o gymylau (4) 36. Ysbaid penodol o amser (6) 38. Diamynedd chwyrn neu haerllug (3)
40. Enw arall ar Lynlleifiad (6) 44. Derbyn fod rhywbeth yn wir (8) 46. Swyddfa Bost (6)
47. Rhywbeth ar y pryd (8) 49. Gwneud torth (4) 51. Enw anffurfiol am rywun (7) 54. Math o goed (4)
57. Hel cnau (5) 59. Blaendal (5) 63. Y teitl isaf un a roddir i Arglwydd (5)
64. Edrychwn ar y cloc i gael hwn (5) 65. Cynhaliwyd nosweithiau Cymraeg yma yn rheolaidd yn ystod y 60au yn y Plas hwn ger Llangadog (8) 66. Pilio neu dynnu croen (5) 67. Rhanbarth o Dde Cymru (5)

**I Lawr**

1. Afiaith neu sbri (4) 3. Rhwydwaith corryn (3) 4. Y dyn cyntaf (3) 6. Trwm i'w gludo (4)
8. Rwdins neu foron (4) 9. Bod yn well na neb na dim arall (8) 10. Caledfwlch (6)
12. Didaro neu heb ofid (8) 13. Gallwch gael rhai gwerin neu ffydd (7) 16. Iaith y nefoedd (medde nhw) (7)
17. Crŵp enwog o Sweden (4) 18. Stêm (4) 22. Y diwrnod cyn heddiw (3) 24. Coginio "a la ----" (5)
25. Rhoi genedigaeth (5) 27. Nofel T. R Hughes "O --- I ---" (3) 29. Cymeriad o Aberdaron (3)
31. Bron a marw eisiau bwyd (4,4) 33. Nid yw hwn yn gapelwr (8) 35. Ennillydd medal arian (3)
37. Cais taer neu grefu (5) 39. Y dydd wedi'r Nadolig (4,3,6) 41. Merch i fab neu ferch (5)
42. Ynys y Pererinion (4) 43. Ymadael (4) 44. Pen mynydd (4) 45. Dwgu neu gipio eiddo (4)
47. Cyfnod o'r dydd ar doriad gwawr (4) 50. Prif fwyd Asia (4) 51. Plentyn newydd ei eni (4)
52. Un o'r Teletubbies (4) 55. Arian a all gael ei orchuddio ag aur (4) 56. Darn o dir, acer (3)
57. Dyn drwg. (4) 58. Cymysgwch 38 ar draws i gael mesur ynni (3) 60. Mam Dewi Sant (3)
61. Cân o fawl o'r Beibl (4) 62. Byddwch dawel (3) 66. Cymeradwyaeth neu foliant (4)
67. Un peth cyfan

---

Yn anffodus nid oedd atebion posau mis Medi wedi eu rhoi i mewn yn rhifyn mis Hydref.
Felly dyma nhw yn awr ichwi.

Pôs y Pad Teliffon i ganfod Prif ddinasoedd y byd a'u gwledydd oedd yn gyntaf.

Dyma'r atebion:

1. Washington D C (UDA)
2. Tokyo (Siapan)
3. Canberra (Awstralia)
4. Addis Ababa (Ethiopia)
5. Tehran (Iran)
6. Colombo (Sri Lanka)
7. Caracas (Venezuela)
8. Stockholm (Sweden)
9. Nicosia (Cyprus)
10. Tripoili (Libya)
11. Warsaw (GwLad Pwyl)
12. Islamabad (Pacistan)

Yr ail bôs oedd trefnu llythrennau au gosod yn y blychau gwag i ganfod dyfyniad gan Saunders Lewis.

**Y mae pob llenyddiaeth yn gyfrinach y mae'r allwedd iddi dan garreg drws teulu a phentref a bro a gwlad.**

*Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda ichwi gyd, gan obeithio y cewch iechyd a phopeth y dymunwch yn y flwyddyn sydd i ddod.* *JAJ*

BELLISSIMO
Blodau gan
Kathy Bizzotto
(Llandysilio)
ar gyfer pob achlysur.
Defnyddir blodau
tymhorol lleol.
Ffôn: 07944 248973
e-bost:
kathbizzoto@gmail.com


IFAN DAVIES
Saer Coed

Blaenwern
Clunderwen. SA66 7XA
07875 540469


W.J. KENNETH DAVIES
ei Feibion a'i Ferch
SEIRI COED
a
THREFNWYR ANGLADDAU
Blaenwern, Clunderwen
Ffôn: 01437 563319

# CORNEL Y DYSGWYR

*gan Albie Abbot*

Dyma rywbeth i chi ymarfer dros y Nadolig.
Nadolig llawen a Blwyddyn Newydd dda i chi i gyd.

*Oddi wrth Albie a Dee - Fe welwn ni chi yn 2025.*

## LLUNIO CWESTIYNAU

**Trowch y gosodiadau a ganlyn yn gwestiynau;-**

1. Roedd y ci'n cysgu o flaen y tan.
2. Gwelodd y plant y llong yn cyrraedd.
3. Byddai e'n priodi'r ferch honno.
4. Mae ganddynt gi.
5. Mae'r plas ar werth.
6. Bydd y tywydd yn gwella cyn bo hir.
7. Tom yw brawd Sian.
8. Dylai'r ddau briodi ar unwaith.
9. Yr athro sy'n iawn.
10. Prynon nhw dafarn yn y wlad.
11. Awn ni i'r gwaith yfory.
12. Roedden nhw'n teimlo'n dost.
13. Hoffai hi fod wedi cael y swydd honno.
14. Mae'r bwthyn ar lan y mor.
15. Byddan nhw'n hapus yn byw yno.
16. Clywodd ei rieni'r newyddion.
17. Ym mis Ebrll y mae ei benblwydd.
18. Aeth Alun i'r gwely'n gynnar.
19. Cwpwrdd dillad oedd e.
20. Caeodd y dafarn cyn hanner nos.
21. Gweli di Dewi yfory.
22. Gwnaiff Delyth y bwyd yfory.
23. Mae bara yn y cwpwrdd arall.
24. Gwnewch ymdrech i gyrraedd mewn pryd.

# Clwb 200

d/o Rhian White, Garnwen, Llangynin, San Clêr,
Sir Gâr. SA33 4JZ
Rhif ffôn: 01994 231338
e-bost: rhian-white1@hotmail.co.uk

Annwyl ddarllenwyr,

Dyma 2024 yn dod at ei therfyn a chofiwn yn annwyl am y rheini a gollwyd, boed yn aelodau'r Clwb 200, neu'n ffrindiau i'r Cardi Bach.

Diolch am eich cefnogaeth i'r clwb drwy gydol y flwyddyn ac hyderaf y gwnewch ymuno eto'r flwyddyn nesaf, i gefnogi'n papur bro.

Dyma enwau'r sawl sydd wedi ymaelodi'n ddiweddar:-

Delyth a Kevin Morris, Bryntaf, Llanfallteg
Gerwyn a Maureen Eynon, Penralltfach, Login
Megan a Sam Pask, Rhydychen, Hebron.
Richard a Non Murray, Maesyffynnon, Efailwen
Margaret Williams, Cilowen, Login
Dion Williams, Cilowen, Login
Dyfrig Phillips, 94 St. Lawrence Park, Cas-gwent
David Davies, Frondeg, Cwmfelin Mynach
Brynmor Thomas, Brynderwen, Clunderwen
Angela Thomas, Brynderwen, Clunderwen

Llongyfarchiadau i enillwyr lwcus mis Hydref:-

614: £30 - John Arfon Jones, Cilhaul, Hen Dŷ Gwyn.
138: £20 - Caleb, Gwilym ac Osian Snelson, Trem y Coleg, Caerfyrddin.

Gan ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Ddedwydd ac heddychlon i chi gyd.

Cadwch yn ddiogel,

*Rhian*

ARWYDDION A DYLUNIO
BOOMERANG
SIGN & DESIGN
01239 832 014
sales@boomerang-signs.co.uk
UNED 11A, PARC GWYNFRYN,
CRYMYCH, SIR BENFRO

CBS
CRYMYCH
ADNODDAU ADEILADU
Uned 7A, Parc Gwynfryn,
Crymych. SA41 3RQ
Ffôn: 01239 831444

COLIN JOHN
Llewelyn Davies
Cyfrifwyr Siartredig
Hendygwyn
01994 240254
www.llewelyndavies.co.uk




CWMNI PEIRIANNEG
HENDYGWYN AR DAF CYF.
(WHITLAND ENGINEERING LTD.)
GWAITH HAEARN O BOB MATH
SEFYDLU · ADEILADU · WELDIO
ARBENIGWYR YNG NGWAITH
HUFENFEYDD A BRAGDAI
GWAITH CYNNAL A CHADW
Uned B
Heol y Gorllewin
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 240442
Ffacs: 01994 240937


# Colofn Llên *gan Marian Thomas*

Yn nôl broliant **Curiad Gwag**, canllaw oedran nofel ddiweddaraf Rebecca Roberts yw 16+. Y cwestiwn yw pryd mae rhywun yn rhy hen i'w darllen? Mae am fyd roc a rôl trwm, gigs gwyllt a chyffuriau caled. Caiff Sophie, a gafodd fagwraeth heriol, ei phenodi i reoli taith y band gan dad cefnog y prif leisydd, Jason. Daw pedwar aelod y band yn gymeriadau byw ac adroddir y stori gan Sophie. Plentyn maeth oedd hi ac mae dirgelwch am bwy yw ei rhieni - efallai bod ambell awgrym yn ystod y nofel yn rhy amlwg ond mae'n ddarllenadwy dros ben. Er mod i'n heneiddio mwynheais y nofel hon gan gofio i'r awdures gyhoeddi dwy nofel lwyddiannus i oedolion eisoes, sef **Mudferwi** a **Chwerwfelys** ac wedi ennill gwobr Tir na n-Og am ei nofel **Helynt** i bobl ifanc. Felly dyma anrheg Nadolig i bobl ifanc a rhai ifanc eu hysbryd.

Nofel am ddynion yw **Tadwlad** gan Ioan Kidd. Ar ddechrau'r nofel mae Dylan yn angladd ei dad yn clywed iddo yntau gael ei fabwysiadu a'r ymchwilio i ddarganfod ei gefndir yn un thema. Mae Dylan yn rheolwr canolfan i ffoaduriaid yng Nghaerdydd ac yno'n cwrdd â Nabil, Syriad o Aleppo . Mae bron pob pennod o safbwynt y naill a'r llall, ond ceir un trwy brofiad Guto, mab Dylan a'i rieni wedi ysgaru a'r tad mewn perthynas newydd â Beca; un bennod yn cyfleu profiadau Elwyn, taid Dylan sy'n codi llen ar ei hanes yn yr Almaen ar ddiwedd yr ail ryfel byd; a'r bennod olaf o safbwynt Gerallt, neu Gerhard, yntau 'n ffoadur. Mae un bennod o safbwynt Hadi, ffoadur arall o Irac a'r tyndra rhyngddo a'r Syriad sy'n feddyg – a hanes hwnnw'n enbyd. 'N*id trip ysgol Sul mo'r daith ar draws y Dwyrain Canol ac yna Ewrop,*' meddir. Mae golygfeydd a hanes dirdynnol yma a chri a sgrechian gwylanod yn adlais o'r dioddef. Llwydda'r awdur i ddarlunio'r sefyllfaoedd yn eithriadol yn fy marn i – yn rhy fanwl yn ôl un arall a'i darllenodd yn ein tŷ ni – ond mae'n rhoi mewnwelediad i ni o wewyr rhai ar ffo. Brawddeg a gaiff ei hailadrodd yw bod 'gan bawb ei stori ei hun' – rhywbeth na ystyriwn wrth wylio'r newyddion am ffoaduriaid. Os clywch chi rywrai yn cwyno am ffoaduriaid rhowch y nofel hon iddynt i'w darllen.

Os na fuoch chi yng nghyngerdd Delwyn Siôn gyda chyfeiliant medrus Myfyr Isaac yn yr hydref ym Mhwll Trap mynnwch gopi o'i gyfrol o atgofion, **Dyddie Da.** Ynddi mae geiriau nifer o'i ganeuon a'u cefndir sy'n gofnod o hanes ardal cymoedd glofaol y de ac yn adlewyrchiad o'i fagwraeth a roddodd sylfaen gadarn i'w fywyd ac fe fu, yn nôl ei gyfaddefiad ei hun, yn ffodus iawn – on'd doedden nhw'n ddyddie da! Ceir yma ddoniolwch a thristwch a byddai hon yn ffitio'n rhwydd mewn hosan Nadolig,

Rwyf innau wedi llunio rhestr lyfrau i Siôn Corn eisoes. Ar ben y rhestr, cofiant canwr eiconig arall – **Salem a Fi** gan Endaf Emlyn; yna ambell nofel dditectif; **Erchwyn** sef dilyniant i **Braw Agos** Sonia Edwards. Dwedodd Bethan Mair ar *Pnawn da* fod honno gystal os nad gwell na nofel ddiweddaraf Richard Osman a byddwn yn eilio'r farn honno. Newydd ei chyhoeddi mae trydedd nofel ar ddeg John Alwyn Griffiths, sef **Dan y ddaear** am ymchwiliad arall y ditectif Jeff Evans. Prynwch lyfr Cymraeg yn rhodd y Nadolig hwn!




STWFFIN

- 4 owns o friwsion bara
- 2 owns o suet
- 1 llwy fwrdd o bersli
- Croen 1 lemwn
- Pupur a halen
- 1 llwy de o berlysiau cymysg
- Ychydig o laeth neu wy i gymysgu'r cyfan

SAWS BARA


1 peint o laeth
1 winwnsin
6 owns o friwsion bara
2 owns o fargarin

Dull

- Twymwch y llaeth, winwnsyn wedi ei dorri a'r
- margarin, mewn sosban
- Ychwanegwch y briwsion bara
- Cymysgwch yn dda a gweinwch pan fydd yn dwym

DAVIES
CWMNI ADEILADWAITH
Contractiwr Adeiladau Amaethyddol
Llogi Peiriannau
Arbenigwr mewn gwaith concrid
Parlyrau Godro • Iardiau Concrid
Paneli ac Estyll Concrid
Cysylltwch â Wyn Davies
Fferm Blaenwaun, Hebron, Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 419720 / 07791 168326


DAVIES
Y GWRES
A'I FERCHED
Plymio a Gwresogi
07792 947227
ebost: hyweldavies65@gmail.com


T. D. LADD
a'i Gwmni
SIOP NWYDDAU HAEARN
Belle Vue
Clunderwen
Ffôn: 01437 563217

# Cyfarfod Blynyddol Dydd Sul, Hydref 20fed 2024 yng Nghanolfan Hywel Dda

**Yn bresennol:** Eurfyl Lewis (Cadeirydd), Rosemarie Davies, Wyn a Meirwen Evans, Iola Wyn, Mel Jenkins, Rhian White, Beti-Wyn James.

**Croeso**
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Eurfyl Lewis, y Cadeirydd.

**Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Delyth Roblin, Meinir Eynon, John Arfon Jones, Tegwen James, Jane Evans, Alison Harries, Susan Phillips

**Cofnodion**
Cynigiwyd gan Iola ac eiliwyd gan Wyn fod cofnodion cyfarfod 2023 yn gywir.

**Materion yn codi**
Trist oedd clywed am farwolaeth John Davies. Bu yn cyfrannu colofn ddifyr ar arddio am flynyddoedd i'r Cardi Bach. Diolch am ei gyfraniad.
Mae pris y Cardi Bach wedi codi ond heb wneud gwahaniaeth i'r gwerthiant.

**Gohebiaeth**
Derbyniwyd llythyr oddi wrth Wyn a Meirwen yn mynegi y byddant yn ymddeol o'u gwaith fel cysodwyr ym mis Gorffennaf ar ôl 20 mlynedd o wneud y gwaith. Mynegwyd ein siom wrth ddarllen hyn ond yn deall fod yr amser wedi dod i ymddeol.

Trafodwyd cael cysodwyr newydd. Penderfynwyd hysbysebu am gysodwr yn y rhifyn nesaf. Mae Eurfyl, hefyd, wedi bod yn gwneud ymholiadau gyda'r argraffwyr ynglyn â chysodi.

**Adroddiad y Cadeirydd**
Argraffwyd 10 rhifyn o'r Cardi Bach eleni, ac argraffwyd 670 rhifyn bob mis. Mae'r hen rifynnau i gyd ar y wefan ac ychwanegir at dudalen Facebook y Cardi Bach yn gyson.

Diolch yn arbennig i Wyn a Meirwen am eu gwaith, hefyd i Iola am y golofn olygyddol, i Llinos, Albie Abbott, Winnie Phillips, John Arfon, Marian Thomas, cyfranwyr Llewyrch i'n Llwybr, y clybiau chwaraeon, cynrychiolwyr ysgolion, gohebwyr, busnesau, siopau sy'n gwerthu a chynghorau tre a chymuned am yr holl waith a chefnogaeth. Diolch, hefyd, i swyddogion y pwyllgor.

**Adroddiad y Trysorydd**
Dosbarthwyd y fantolen a baratowyd gan Rosemarie. Mewn llaw 1/10/23 roedd £4484.25 ac ar 30/09/24 roedd £5112.62 felly ychydig o elw eleni ond mae pris y papur wedi codi.

**Adroddiad y Cysodwyr**
Mae'r cysodwyr yn ddiolchgar i Eurfyl am olygu yn ofalus. Mae llawer o oriau yn mynd fewn i gysodi a golygu. Diolchwyd i'r holl ohebwyr a chyfranwyr sy'n danfon y newyddion i fewn mewn pryd bob mis.

**Adroddiad y Clwb 200**
Mae 665 o aelodau mor belled eleni, roedd 670 y llynedd ond mae nifer o'r ffyddloniaid heb wneud eto eleni. Diolchodd Rhian i Wyn a Meirwen am eu cefnogaeth wrth dynnu rhifau bob mis.

**Ethol Swyddogion**
Pasiwyd bod y swyddogion presennol yn parhau yn eu swyddi.

**Trefniadau tynnu gwobrau Clwb 200**
Penderfynwyd dilyn patrwm y llynedd a thynnu'r gwobrau ar ddydd Sul, Rhagfyr 1af am 4 o'r gloch yng Nghanolfan Hywel Dda.
Gwobrau – penderfynwyd gwneud i ffwrdd ag aelodaeth rad ond rhoi £100 yn fwy o wobrau.

Soniwyd fod nifer wedi mynegi siom nad oes cwis / noson gymdeithasol gyda'r Cardi Bach. Penderfynwyd cynnal cwis yng Nghaffi Beca ar Chwefror 7fed. Bydd Iola'n paratoi cwestiynau. Cynhelir raffl. Bydd 3 gwobr yn y cwis, 1af - £100, 2ail - £50, 3ydd - £25.
Pob tîm i dalu £5 am gystadlu.

**Hamper Nadolig**
Penderfynwyd gofyn i Llinos baratoi tudalen i Facebook. Bydd Iola'n casglu nwyddau o fusnesau lleol a gwario tua £40.

---

Cyfraniadau

| | |
|---|---|
| Terry a Merle Jones, Bancyfelin | £20 |
| Llinos Thomas, Carreglwyd, Llangynin | £10 |
| Sadie Davies, Llandysilio | £10 |

*Diolch yn fawr*

Preselistorage cyf.
Containers ar werth neu i'w llogi
Ffôn: 01834 860227 / 07969 343159
GORSAF BETROL PRESELI CYF.
Llanddewi Efelffre, Arberth SA67 7PD
ar agor 5y.b. - 10y.h. bob dydd
Olew dros Gymru Oil4Wales
LONDIS
01834 860227




R. M. JONES
CYFRIFYDD AC AMCAN-GYFRIFYDD
Bridge End House
Clunderwen
Ffôn: 01437 562185 / 07831 426456
e-bost: meurigj@hotmail.com

GWASANAETH CEIR HENDYGWYN
Canolfan atgyweirio ceir



Gwerthu Teiars, Batris, Egsosts ayyb
Dai James - Steven Owens
Uned 9, Ystad Ddiwydiannol Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn ar Daf
01994 240230 / 07972 725193

# MERCHED Y WAWR

**Cangen Gronw**

Daethom at ein gilydd i festri Ramoth, ar brynhawn dydd Mercher, Hydref 23ain, o dan lywyddiaeth Valerie.

Yn ein cyfarfod agoriadol, estynwyd ein cydymdeimlad i Meirwen ar golli ei hewythr, sef Elfyn Evans o'r Gelli. Estynwyd ein dymuniadau gorau am wellhad llwyr a buan i Jane, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Roedd hi'n braf i weld Eirwen yn ôl yn ein plith yn dilyn ei llawdriniaeth, ac roedd hi'n hyfryd i groesawu Heather yn ôl atom.

Ein dwy wraig wadd oedd Mrs Rhian Davies-Belcher a Mrs Carys Lewis. Buon nhw'n sôn am y busnes mae'n nhw'n ei redeg, sef Cwyr Cain. Mae Rhian yn enedigol o'r ardal, wedi cael ei magu yn Llysnewydd, Hebron, ond ers blynyddoedd yn byw yng Ngorslas. Mae Carys yn enedigol o ardal Felinfach yn Nyffryn Aeron, ac yn byw yng Nghwmann. Am bum mlynedd ar hugain roedd y ddwy yn dilyn gyrfaoedd disglair ym myd Addysg – Rhian yn bennaeth cynorthwyol yn Ysgol Gymraeg Llangennech, a Carys yn bennaeth ar Ysgol Gynradd Ciliau Parc, ger Aberaeron.

Roedd y ddwy yn hoff iawn o greu, ac ar ôl mynychu cwrs ar sut i wneud canhwyllau, fe benderfynon nhw arall-gyfeirio, rhoi'r gorau i ddysgu  a dechrau busnes creu canhwyllau. Mae Carys yn parhau  i ddysgu rhywfaint o gerdd mewn ysgolion lleol.

Cwyr soya mae'n nhw'n ei ddefnyddio yn hytrach na paraffin, oherwydd ei fod yn llosgi'n lân. Mae'n nhw'n ofalus o'r cynhwysion mae'n nhw'n eu defnydddio i greu'r persawr, ac yn rhoi ystyriaeth i faterion amgylcheddol, megis defnydd lapio.

Er i'r ddwy gydnabod bod rhedeg busnes yn wahanol iawn i weithio o fewn ysgol, roedd llawer o sgiliau'r byd addysgol yn fanteisiol iawn iddyn nhw yn eu menter newydd. Rhoddir lle amlwg i'r iaith Gymraeg – mae enwau Cymraeg i bob persawr. O greu'r logo, argraffu cardiau, pecynnau ac ati, i'r gefnogaeth gawson nhw gan Gyngor Sir Gâr, Busnes Cymru a Mudiad Merched y Wawr, mae Cwyr Cain yn fusnes Cymraeg a Chymreig.

Yn dilyn ein cyflwyniad i'r nwyddau, cawsom gyfle i brynu! Os am gysylltu â'r cwmni dyma ragor o wybodaeth - cyfeiriad ebost :- helo@cwyrcain
facebook :- cwyrcain.cymru • instagram :- cwyrcain
gwefan :-www.cwyrcain.cymru
(Os am siopa Nadolig ar lein, defnyddiwch y côd sy'n dilyn ac arbed 10% o'r pris llawn :- DIOLCH10)

Diolchwyd i Rhian a Carys am brynhawn diddorol a difyr, gan Valerie, a dymunwn ddyfodol llwyddiannus iawn i Cwyr Cain.

Llinos a Delyth (a bisgedi wrth Jane) fu'n gyfrifol am baratoi'r te, a Delyth enillodd y raffl.
Bydd ein cinio Nadolig ar ddydd Mercher, Rhagfyr 11eg, yng Ngwesty'r Hebog, Caerfyrddin.

## Cangen Beca

Cyfarfod yng Nghaffi Beca wnaeth aelodau'r gangen ar brynhawn Iau, Hydref 10fed.
Gwnaeth Angharad estyn croeso i bawb, a chroesawu aelod newydd i'r cyfarfod, sef Muriel John. Gobeithio y bydd yn mwynhau y gymdeithas.

Wedi edrych dros faterion y mudiad, Gloria Gibby wnaeth groesawu Angharad Edwards, Llaeth Preseli, atom i'r cyfarfod. Diddorol oedd clywed hi yn sôn am y gwaith adref ar y fferm.  Rhedeg busnes llaeth maent yn gwneud yn ddyddiol, ar fferm gerllaw y Mot.  Gwnaethom fwynhau blasu y cynnyrch - y llaeth, a'r ysgytlaeth ac i orffen, yr hufen ia.  Yr oedd popeth yn flasus dros ben. Gwnaeth Angharad ddiolch iddi am brynhawn diddorol ac wrth fodd pawb.

Eilir wnaeth ennill y raffl misol. I orffen, pawb yn sgwrsio, rhoi'r byd yn ei le, a mwynhau paned a chacen cyn troi am adre wedi joio mas draw.

## Cangen Hendygwyn

Ar 15fed o Hydref cynhaliwyd ein cyfarfod misol yng Nghanolfan Hywel Dda pan oedd pob un o'n haelodau ni yn bresennol. Cadeiriodd ein trysorydd, Ann Glanville, y cyfarfod gan ein croesawu ni i gyd yn enwedig Meleri, aelod o Glwb Gawr Hendygwyn, i'n plith. Ein gŵr gwadd oedd y Parchedig Guto Llywelyn a chyn pen dim roedd wedi ein rhannu yn dri tîm ar gyfer y Cwis oedd wedi baratoi ar ein cyfer. Fe dreulion ni orig ddifyr iawn yn darganfod cymaint oedd gyda ni i ddysgu am Gymru! Tîm Mefin oedd yr enillwyr gyda'r ddau dîm arall yn agos iawn ar eu hôl. Penderfynwyd ceisio gwneud tîm i gystadlu yn y Cwis Hwyl yn Neuadd Cross Hands ar Dachwedd yr 8fed.

Paratowyd disied fach o de gan Ann Lewis a Rose Saer a buom yn trafod materion y Mudiad a rhoi'r byd yn ei le yn gyffredinol. Diolchodd Ann Glanville i Guto am ein difyrru ni ac fe ganom ni gân y Mudiad.

Ar Dachwedd 8fed, aeth  Ann Glanville, Margarette Hughes, Heather Jenkins ac Eleri Lewis (ill dwy yn aelodau hefyd o Glwb Gwawr Hendygwyn) i gymryd rhan yn y Cwis Hwyl a chafwyd noson bleserus iawn yng nghwmni'r un ar bymtheg tîm gymerodd ran. Llongyfarchiadau i dîm Sancler ar ennill y gystadleuaeth.

Ar nos Lun, Tachwedd 11eg aeth Jean Parri Roberts i'n cynrychioli ni yn y Pwyllgor Rhanbarth yn Abergwili.

Bydd ein cyfarfod nesa ar Dachwedd 19eg, yng Nghanolfan Hywel Dda an 3 o'r gloch.

## Cangen San Cler

Fe ail-gychwynodd y Clwb Darllen ym Methlehem Newydd ar Dachwedd 21ain. Daeth 7 I'r cyfarfod a chafwyd sgwrs ddifyr yn sôn am rai o'r llyfrau roedd pawb wedi darllen dros y misoedd diwethaf a'u hoff lyfrau. Penderfynwyd trafod y nofel "Gwaddol" gan Rhian Cadwaladr yn y cyfarfod nesaf ar Ragfyr 2il. Mae croeso

i unrhyw un ymuno â ni. Cysyllter â Beti-Wyn.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd yn Yr Hen Ysgol ar Dachwedd 12fed. Llywyddwyd gan Annalyn.

Llongyfarchwyd y ddau dîm cwis a fu'n cystadlu yn Nghwis Hwyl Merched y Wawr ar Dachwedd 8fed. Cynhaliwyd rownd Rhanbarth Caerfyrddin yn Neuadd y Tymbl.



Aelodau'r ddau dîm



Llongyfarchiadau arbennig i dîm 1, Iona, Heulwen a Beti-Wyn ar ennill yn Rhanbarth Caerfyrddin. Yn y llun gwelir Gwyneth Alban, Llywydd Rhanbarth yn eu cyflwyno â Thlws Sera.

Rhannwyd gwybodaeth am ddigwyddiadau a chystadlaethau'r Mudiad yn cynnwys taith Lerpwl. Gwnaed casgliad gan yr aelodau i Apêl Teganau Sir Gaerfyrddin.

Croesawyd y siaradwr gwadd sef Helen Hastings o gwmni Calon Mam o Lanpumsaint. Cafwyd hanes y cwmni a dangoswyd llawer o'r nwyddau hyfryd sydd ar werth yn ddillad a nwyddau i'r tŷ wedi eu personoli.

Enillwyd y wobr raffl, rhoddedig gan Margaret Rees gan Lilwen

Mwynhawyd lluniaeth blasus a baratowyd gan Sue o'r Hen Ysgol.

## Merched Y Wawr Rhanbarth Caerfyrddin



Ar ran Merched Y Wawr cyflwynwyd ffrâm o flodau gobaith i Ysbyty Gyffredinol Glangwili gan swyddogion rhanbarth Caerfyrddin. Roedd y ffrâm yn ran o'r prosiect blodau gobaith a arweiniodd at greu yr enfys flodau gogyfer ag Eisteddfod Genedlaethol Tregaron yn 2022.

Mae'r enfys yn awr i'w gweld yn Ysbyty Arch Noa i Blant Cymru yng Nghaerdydd. Arwydd yw'r ffrâm o'n gwerthfawrogiad ni fel mudiad i'r Gwasanaethau Iechyd am ei gwaith caled yn ystod y pandemig ac yn wir am y gofal cyson sy'n cael ei ddarparu i gleifion Cymru.

Yn y llun mae Louisa Standeven, Sion Davies, Kate Russell, Louise Peregrine a Nia Jones yn cynrychioli'r bwrdd iechyd a Jane Morgan, Ann Phillips, Eirlys Davies a Gwyneth Alban yn cynrychioli rhanbarth Caerfyrddin.

Tomos Rees
NEW HOUSE GARAGE
Atgyweirio a M.O.T.
Ffôn: 01994 230041

HAYDN LLOYD BSc / DMS - Cyfarwyddwr
ALLPUMP SERVICES
ARBENIGWYR MEWN PWMPS FFYNNON A TYLLAU, TRINIAETH CARFOSIAETH, SYSTEMAU DŴR BRWNT A SOLAR
Fferm Ffynnonlwyd
Llangynin
San Clêr
SA33 4LD
Ffôn: 01994 448310
Ffacs: 01994 448693
e.bost:
enquiries@allpump.co.uk

PHIL & SIÔN HARRIES
SEIRI COED
EFAIL FACH
HENLLAN AMGOED
FFÔN:-
01994 240857

# HENDYGWYN AR DAF


**Tabernacl**

Mis Hydref yw mis y Cyrddau Diolchgarwch fel arfer ac felly roedd hi eleni eto.

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch y plant a'r ieuenctid ganol mis Hydref a chafwyd gwasanaeth hyfryd ganddynt ar thema y creu a diolchgarwch.



Cwrdd Diolchgarwch y plant a'r ieuenctid



Yna ar ddiwedd mis Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr oedolion a hynny dan arweiniad y Parch. Ken Thomas, Maenclochog.



Heddyr Gregory o 'Shelter Cymru' oedd y siaradwraig wadd yng Nghymdeithas y Tabernacl yn ddiweddar. Cafwyd anerchiad gwych ganddi ar waith 'Shelter Cymru' yn helpu'r di-gartref.

Heddyr Gregory (ar y dde) a Heather Jenkins.

Fe wnaeth Clwb Ieuenctid y Tabernacl gwrdd yn ystod mis Hydref. Fe wnaethant gwrdd yn McDonalds. Ar ôl i bawb fwyta, cafwyd cwis lluniau rhwng yr ieuenctid a'i rhieni.



Clwb Ieuenctid y Tabernacl

Trist yw cofnodi ein bod wedi colli aelod yn ddiweddar sef Dilys Evans, Derwen Las, Pwlltrap. Rydym yn cydymdeimlo yn ddiffuant gyda'i theulu a'i ffrindiau.

Ar nodyn hapusach mae dau o'n haelodau wedi dathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar. Fe wnaeth Haulwen Thomas, Lon Hywel, Hendy-gwyn ddathlu ei phenblwydd yn 90 ar ddiwedd Hydref. Ac yna ar ddechrau Tachwedd fe wnaeth Nigel Jones, Bryn Iwan, ddathlu ei benblwydd yn 80. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddynt wrth pawb yn y Tabernacl.



Haulwen gyda'i gŵr Aeron a Daniel, un o'r wyrion



Nigel Jones yn dathlu penblwydd arbennig

**C J Waste cyf.**

Carl Britton
01994 238367
07506 482007
cjwasteltd@yahoo.com

Prisiau ardderchog

Gwagio tanciau septig / carthbyllau

Britton Villa, Llangynin,
Sanclêr. SA33 4JZ

Carwyn a Sian James
J. K. Lewis a'i Fab
Glandy Cross.
SPAR

*Nwyddau di-ri ar gael gan gynnwys Petrol, Gwin a Chwrw, Glo, Tocynnau Trydan, Nwy, Loteri a phob peth fydd angen arnoch ar unrhyw achlysur.*

***Ar agor Llun i Sadwrn - 6.30 y.b. - 9 y.h.***
***Dydd Sul - 7 y.b. - 6 y.h.***

Ffôn: 01994 419230

*G WILLIAMS*
*a'i FEIBION*

Monumental Masons

*SEIRI MEINI COFFA*
Pentre Yard
San Clêr
Ffôn: (01994) 231390

Ar ddechrau Tachwedd bedyddiwyd Gwenllian Mair Glanville, merch Dafydd a Jasmine. Pob dymuniad da i'r teulu bach.



Gwenllian Mair Glanville gyda'i rhieni Dafydd a Jasmine

Mae amser prysur y Nadolig o'n blaenau. Dyma drefn yr oedfaon yn y Tabernacl a chroeso cynnes i bawb :

Rhagfyr:
1af: 10.00 - Oedfa Gymun
8fed: 11.15 - Oedfa Garolau Unedig Hendygwyn
15fed: 11.15 - Oedfa Nadolig y plant a'r ieuenctid
22ain: 10.00 - Oedfa Nadolig yr Oedolion Ifanc

## *Llongyfarchiadau*



Llongyfarchiadau i Rhodri Williams ar ennill Gradd Meistr mewn Peirianneg Amaethyddol o Brifysgol Harper Adams. Dymuniadau gorau iddo ar gyfer y dyfodol.

## Côr Meibion Hendygwyn

Dychwelodd y côr yn ddiweddar o Ddulyn ar ôl cyngerdd ar y cyd gyda Chôr Meibion Cymry Dulyn yn Eglwys Efengylaidd Sant Ioan, Monasterevin. Rhoddodd ein gwesteion groeso cynnes i ni a lluniaeth hyfryd. Gwerthwyd pob tocyn yn y gyngerdd, a chawsom gymeradwyaeth gan dorf werthfawrogol ar ôl ein heitem olaf.

Ar y 19eg o Hydref, cawsom wahoddiad i gymryd rhan mewn cyngerdd yn Theatr y Lyric, Caerfyrddin gan A Choired Taste (Caerfyrddin). Cyngerdd Dathlu Lleisiau gyda chorau a phlant ysgol amrywiol eraill. Roedd y Theatr yn llawn, a'r gynulleidfa yn werthfawrogol. Roedd y cyngerdd yn llwyddiant ysgubol, a bydd yr arian a godwyd yn cael ei roi i ddeg elusen lleol.

Nos Sul 10fed o Dachwedd, sef Sul y Cofio bu'r côr yn canu yn Eglwys Sant Brynach, Llanboidy.



Côr Meibion Hendygwyn a Chôr Meibion Cymry Dulyn

### Hoelion Wyth - Cangen Hendygwyn

Cynhaliwyd cyfarfod mis Tachwedd, fel arfer yn lolfa Clwb Rygbi Hendygwyn. Ein siaradwyr gwadd oedd Ann a Kenvin Morris o Faenclochog ac estynnwyd croeso cynnes iddynt gan y cadeirydd Claude James. Daw Ann yn wreiddiol o Bontypridd a Kenvin o Twffton. Mae'r ddau yn weithgar yn eu cymuned ac yn cefnogi nifer o fudiadau ac elusennau. Cyn ymddeol roedd Ann yn arhrawes ac yn bennaeth yn ysgolion Sir Benfro, adeiladwr oedd Kenvin gyda diddordeb mawr mewn garddio.

Gyda Ann yn siarad a Kenvin yn rhoi lluniau ar sgrin, cawsom hanes beth oedd wedi dylanwadu ar eu bywyd. Pan yn blentyn, roedd Ann yn byw ym Mhontypridd ac yn ymweld â theulu yn Twffton yn rheolaidd ac yma cyfarfu a'i gŵr Kenvin.

Cafwyd hanes diddorol o'r amser fu Ann yn tyfu i fyny ym Mhontypridd gan ddod i fewn a hanes trychineb glofaol Pwll Glo Cilfynydd yn 1894 pan gollodd 281 o weithwyr eu bywydau.

RHYDWYN DAVIES
TRYDANWR
Parcylleine, Blaenffos, Boncath. SA37 0HZ
NICEIC APPROVED CONTRACTOR
Ffôn: 01239 831212
Symudol: 07836 751238

AM Y DEWIS GORAU
GALWCH HEIBIO
SIOP Y PENTAN
Y Farchnad, Caerfyrddin
*Anrhegion Cyfoes Cymraeg*
*Llyfrau Cymraeg*
*CD's*
*Cardiau Cyfarch*
*a llawer mwy*
Ffôn: 01267 235044

Fferyllfa Clunderwen
GWASANAETH DOSBARTHU AR GAEL

Os ydych am i ni archebu eich presgripsiwn, cysylltwch â ni
Ffôn: 01437 563228
Fferyllfa Clunderwen, Crinow Glebe, Clunderwen. SA66 7NP

Hefyd cafwyd hanes adeiladu pont unigryw Pontypridd ar gost o £500!! a hefyd hanes Dr William Price a oedd y cyntaf i losgi corff dynol.

Dechrau a gorffen y cyflwyniad hynod o ddiddorol yn Twffton a chawsom noson hwylus dros ben. Diolchwyd i'r ddau yn wresog gan Mel Jenkins.

## Cylch Meithrin Hywel Dda



Ymwelodd y plant â gardd farchnad Greenacre yn Llanteg fis diwethaf a dewis pwmpenni hyfryd i fynd adref gyda nhw. Cawsant amser bendigedig! Diolch i Bysiau Cwm Taf am ein cludo.

Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd ein te prynhawn ar Hydref 19eg i godi arian ar gyfer y Cylch Meithrin. Diolch i fusnesau ac unigolion lleol am noddi ein digwyddiad, am gyfrannu gwobrau raffl ac am helpu drefnu'r diwrnod. Diolch hefyd i'r pwyllgor a'r staff am eu holl waith caled. Cafwyd prynhawn hyfryd gan bawb.



Mwynhau'r Te Prynhawn



Gwnaeth y plant greu pabi coch ar gyfer Diwrnod y Cofio



Diolch yn fawr iawn i Narberth & Whitland Round Table am eu rhodd caredig tuag at y Cylch Meithrin

Cododd Cylch Meithrin Hywel Dda a Ti a Fi £38 ar gyfer Plant Mewn Angen eleni. Roedd y plant wedi mwynhau parti Pydsi! *(Llun ar dudalen flaen)*

### Cymdeithas Cenedlaethol Hywel Dda

Enillwyr Mis Tachwedd

Simon Allen - £60 • Mair Macintee - £50

Janet Phillips - £40 • Elen Haf Jones - £30

## RHYDWILYM

Bore Sul, Hydref 27ain, braf oedd croesawu y Parch. P M Thomas i oedfa gymun. Estynwyd croeso hefyd i'w briod Meryl. Bu llawer o hel atgofion, gan fod hanner can mlynedd wedi mynd heibio ers iddynt ddod atom, ac ynte newydd ddod allan o'r coleg, a dechrau ar ei weinidogaeth. Yr un pryd yr oedd y ddau yn dechrau ar eu bywyd priodasol ar yr aelwyd yn Bryn Gwilym.

Llongyfarchiadau i Meinir Owen ar ddod yn famgu, ac i Beryl John yn hen famgu. Ganwyd efeilliaid bach i Marged, merch Meinir - Alys Mai, a Ioan Benjamin. Pob bendith iddynt i gyd.

arwyddion eaglesigns
Y Gwasanaeth Cyflawn am Arwyddion, Argraffu a Lifrau Cerbydau...
01994 231749
post@eaglesigns-wales.co.uk
www.eaglesigns-wales.co.uk
UNED 3/4, PARC TIR OWEN, SAN CLER

SAER COED IFAN LEWIS CARPENTRY
07456 626 735

STEVE DANIELL
Monraker
Plymiwr
a gwaith cyffredinol
"Handyman"
Tir y Bont
Llanglydwen
Hendy Gwyn ar Daf
Ffôn: 07837 089648

Falch i glywed bod Marilyn Bryan yn gwella ar ôl cael triniaeth ar ei chlun yn ddiweddar.
Bu Emrys Llewelyn,  yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ystod mis Hydref yn Waungron.
Pob hwyl i'r ddau.

Diolch i aelodau Capel Hebron am roddi yr organ i ni yn Rhydwilym. Trist oedd clywed bod Hebron wedi gorfod cau y drysau. Pob bendith iddynt i gyd.
Diolch i Brian Llewelyn am drefnu a throsglwyddo yr offeryn lawr i Rhydwilym.

Ar hyn o bryd mae llawer o waith yn cael ei wneud ar y Capel, y Stabal, a'r Bwthyn yn Rhydwilym. Mae scaf-falde lan ym mhob man, a bydd yn amhosib cynnal oedfaon yn y Capel ar hyn o bryd. Byddwn yn cyfarfod yn y festri. Rhaid yw cadw y drysau yn agored.

Diddorol oedd darllen hanes Hafwen John yn 'Y Wawr'. O Benfro i Benllyn oedd teitl yr hanesyn. Yr oedd Hafwen yn ffyddlon a gweithgar yn Rhydwilym cyn iddi fynd i ffwrdd, ac mae yn aelod gyda ni hyd at heddiw, a braint i'w ei chroesawu adre bob amser.

Pob bendith i bawb dros yr Ŵyl.

# RHYDYCEISIAID

**Pulpud**
Cynhaliwyd oedfa gymun ar Sul, Tachwedd 3ydd. Pleser oedd cael cwmni Eifiona Lewis a Dewi Griffiths yn yr oedfa a diolch i Eifiona am ei charedigrwydd.

**Diolch**
Dymuna Doreen Adams ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd ar ôl llawdriniaeth i'w llygad ychydig amser yn ôl.

# LLANGLYDWEN

**Diolch**
Dymuna Jill Lewis, Lluest ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a cymdogion am yr holl gyfarchion, cardiau ac anrhegion dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 60 oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Wyn Davies, Golygfa Hyfryd ar farwolaeth ei wraig Sian yn ddiweddar.  Cydymdeimlwn hefyd gyda Rosemarie Davies, Fferm Blaenwaun ar golli ei chwaer yng ngyfraith.

# MEIDRIM

**Henoed**
Ein cyfarfod diwetha oedd Cwrdd Diolchgarwch dan arweiniad Mrs Ann Evans, Caerfyrddin.  Clywsom ganddi bod y cymwynasau bychain a wnawn i eraill yn bwysig iawn. Gall gair, gwên, neu weithred gyfoethogi ein bywyd.
Diolchwyd iddi gan Meirion Morris. Casglwyd £133.50, rhodd i'r Berllan, Meidrim, parc chwarae'r plant.

Bydd y cyfarfod nesa a'r Ragfyr 3ydd. Cawn ddarlleniadau a charolau cyn cael cwpaned o de a bisgedi, mulled wine a mins peis.
Wrth y te - Morfydd Davies, Hilda Mason, Sally James, Glyn Harbour.
Yn rhoi raffl - Glyn James, Meinir Thomas, John Lewis, Patsy Lewis.

# BLAENWAUN

Dymunwn wellad llwyr a buan i Irfon Phillips, Swyn y Wawr sydd wedi derbyn clin newydd.



**Diolch**
Hoffai Ann 'Swyn y Wawr ddiolch yn fawr iawn i bawb am y car-diau, negeseuon a'r anrhegion a dderbyni-odd ar ei phenblwydd yn 60 oed yn ddiwed-dar. Cafodd amser hyfryd a bythgofiadwy yn ystod yr achlysur hwn. Ar y diwrnod, rhedodd Hanner Marathon Caerdydd.

**Moriah**
Diolch i Elonwy Phillips ac i'r Parchedig Gareth Ioan am eu gwasanaeth yn oedfaon Hydref a Tachwedd.

Trefn yr oedfaon.
Rhagfyr
1af. Oedfa 10.30  Parchedig Gareth Ioan.
15fed. Cymun 2 o'r gloch. Natalie Morgan
29ain. Oedfa undebol yng nghapel Blaenycoed am 6.30.
 7 Llith a Charol.

**Rosemarie Davies**
Cyfrifydd Technegol
Treth Ar Werth    Cyflogau
Cadw Cyfrifon    Hunan Asesiad
Fferm Blaenwaun, Hebron
Ffôn: 01994 419005
Symudol: 07854 212799
Yn drwyddedig gan
Association of Accounting Technicians

Delwedd
07814 543634
*Salon Harddwch a Chyflenwol*
Crymych
Triniaeth o safon mewn awyrgylch gartrefol gan Nia

Wyndham Phillips a'i Feibion
POBYDDION
COUNTY STORES
San Clêr
*Bara a chacennau ffres yn ddyddiol*

Ffôn: 01994 230474

Ionawr 5ed. Oedfa 1.30. Parchedig Gareth Ioan.

Pob dymuniad da i Michael Evans sydd yn dathlu ei benblwydd yn 75 oed ar Ragfyr 13eg.
Llongyfarchiadau i Pat a Gareth Davies, Pilmawr sydd yn dathlu Priodas Aur ar 30ain Tachwedd. Rydym fel eglwys ac ardal yn dymuno yn dda iddynt.

Dau aelod arall yn dathlu penblwyddi arbennig sef : Huw James, Tyddyn yn 70 oed ar Dachwedd 13eg a Pat Davies, Pilmawr yn 80 oed ar 31ain Rhagfyr. Dymuniadau gorau. Mwynhewch y dathlu.

# HENLLANFALLTEG

**Llongyfarchiadau** i Alice a Chris Thomas, Brynderw, Henllan Amgoed ar enedigaeth merch fach.

# CWMBACH

**Penblwydd hapus** i Eirwen Robinson, Rhydcaenarfon a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar Ragfyr 28ain. Dymuniadau gorau wrth y teulu i gyd.

**Hanes Ysgol Cwmbach**
Peter Crowdie oedd awdur yr erthygl a mae'n ymddiheurio i Jean, Refel, Gellywen am ei gollwng allan o'r rhestr ac hefyd i unrhyw un arall gadawodd allan.

# LLANDYSILIO

## *Penblwydd hapus yn 18 oed*



Penblwydd Hapus iawn i Loti Makepeace yn dathlu 18 oed ar Hydref y 15fed. Llawer o gariad wrth Dad, Mam, Mabli, Cynan, Dadcu a Nana, Mamgu, Wyn a Endaf x.

**Penblwyddi**
Penblwydd Hapus iawn i Loti Makepeace, Cross Farm oedd yn 18 oed ar Hydref 15fed.
….hefyd i Ella Hargraves a oedd yn 18 oed ar 12fed o Dachwedd.



Penblwydd hapus i Carole Thomas a oedd yn 80 oed ar Hydref 17eg.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Chris a Alice Thomas ar enedigaeth merch fach. Wyres i Brian a Jayne Thomas, Caerseli, Llandysilio.

**Cydymdeimlo**
Gyda thristwch, clywsom am farwolaeth Mr James, Meistr Cyfrwywr. Cydymdeimlwn gyda'i fab Steve a'r teulu, Walsal House, Llandysilio a'i chwaer a'r teulu oll.

**Sul Y Cofio**
Cynhaliwyd oedfa Sul y Cofio eleni yn Llandysilio. Yn gyntaf yn y senotaff ac yna yng Nghapel Pisga. Yn cymeryd yr oedfa oedd Y Parchedig Sharon Edge, curad Llandysilio a Clunderwen, ac Yr Hybarch Paul Mackness, Archddeacon Tŷ Ddewi.

**Blaenconin**
Cafwyd oedfa fendithiol yn mis Medi pan ddaeth Huw Roberts a'i wraig Gwawr Owen atom. Edrychwn ymlaen i gael eu cwmni eto yn mis Rhagfyr.

Eleni, tro Blaenconin oedd hi i gynnal y Gymanfa Ganu. Roedd y rihysral a'r gymanfa o dan arweiniad medrus Angharad Edwards a Ceirios Jenner a Siencyn Corp yn cyfeilio. Hyfryd iawn. Llywydd y rihyrsal oedd y Parch. Eirian Wyn Lewis ac Elen Mason, ar ran Capel Bethesda oedd Llywydd y Gymanfa.

Owain Llŷr Evans oedd yn gwasanaethu fore Sul, Hydref 27ain. Hyfryd oedd croesawu Owain a'i fam Ann eto. Mae Owain yn un o blant Blaenconin gan ei fod yn fab i'r diweddar Barch. Byron Evans ac Ann Evans.

**Diolch**
Hoffai Sadie Davies Brynclyd, Llandysilio ddiolch i bawb am y cyfarchion penblwydd a dderbyniodd pan gyrhaeddodd yr oed o 90. Mae hefyd yn ddiolchgar iawn am y nifer o roddion a dderbyniodd tuag at yr ymddiriedolaeth Fibrosis Systig. Mae'r swm o £899.50 wedi cael ei drosglwyddo i'r achos. Diolch hefyd i Andrew a Janet am drefnu'r Te Prynhawn pan ddaeth teulu a ffrindiau ynghyd i ddathlu'r penblwydd.

the LONDON HOUSE butchery
Stryd Sant Ioan
Hendygwyn ar Daf
SA34 0AN
**01994 240705 / 240055**
*Galwch mewn am y dewis gorau*
Dilynwch ni ar Facebook

GBA
GERALD BLAIN
CYMDEITHION CYF
Ymgynghorwyr Cynllunio a Phensaerniol
15 Stryd St Ioan, Hendygwyn, Sir Gaerfyrddin, SA34 0AN
01994 240 366
GERALD@GERALDBLAINASSOCIATES.CO.UK
GERALDBLAINASSOCIATES.COM
@GBASSOCIATES1

RUSSELL THOMAS
GWASANAETH HURIO JCB
PEIRIANT CLODDIO 360°
TRACTOR A THREILAR

Copper Beech, Efailwen,
Clunderwen
Ffôn: 01994 419529
Symudol: 07971 558514

## Cylch Meithrin Llandysilio



Pob lwc i'r plant sydd yn mynd i'r ysgol yn llawn amser.

# CLUNDERWEN

**Penblwyddi**



Penblwydd hapus i Hywel Mathias ar ddathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Hydref 11eg.



...hefyd Penblwydd Hapus iawn i Katy Llewellyn ar ddathlu ei phenblwydd yn 21 oed.

**NFU Cymru**



Llongyfarchiadau mawr i William Davies, Ffynnon Brodyr, Clunderwen ar ennill gwobr 2024 NFU Cymru person stoc llaeth y flwyddyn yn y Sioe Laeth yn ddiweddar yng Nghaerfyrddin.

**Undeb Ffermwyr Cymru**



Mae'r ffermwr llaeth, Stephen James o Fferm Gelliolau Clunderwen, wedi cael ei wobrwyo gan Undeb Amaethwyr Cymru am wasanaeth rhagorol i ddiwydiant llaeth Cymru. Llongyfarchiadau mawr iddo.

**Sefydliad Y Merched Clunderwen a Llandysilio**

Mis Tachwedd cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Clunderwen, lle trefnwyd syniadau am y flwyddyn. Mis nesaf 2il o Rhagfyr peintio cerrig Mandala. Ac yna Ionawr y 6ed bydd gemau bwrdd.

Gwahoddir unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno. Croeso mawr i chi ddod. Byddwn yn cwrdd yn Neuadd Clunderwen am 7.30 y.h.

DH DAVID HARRIES & Co DH
CYFANWERTHWYR
FFACTORAU CERBYD
Westgate, West Street,
Hendygwyn ar Daf
Ffôn: 01994 241100
Batteries, Belts, Bearings, Compressors, Clutches, Filters, Hydraulics, Oil, Paint.

HUW OWEN
CLUDIANT

Rhydymoch
Llandysilio
Clunderwen
Sir Gaerfyrddin
SA66 7UR
☎: 01437 563725 • 07798 885305

JTL PLYMIWR
Arbenigwr ystafelloedd ymolchi / gwlyb
• Gwasanaeth plymio llawn
• Gosodwyr systemau dwr twym heb fent
• Gwasanaeth teilio llawn
• Dyfynbris am ddim
• 25 mlynedd o brofiad
07788 422645 / 01437 563206
jodyleyfield@hotmail.co.uk

**C Ff I Clunderwen**

Mae'r Clwb wedi bod yn brysur iawn yn ddiweddar, gyda Eisteddfod Sir yn gyntaf lle cafwyd tipyn o lwyddiant, gan ddod yn 5ed yn gyffredinol.



Yna Eisteddfod Cymru, cafodd Loti Makepeace lwyddiant yn ennill cystadleuaeth cyfansoddi 28 oed ac iau. Arbennig Loti.

**Ffair Aeaf**



Yn y Ffair Aeaf daeth tîm y cig eidion a'r oen yn 1af a thîm carcas yn 2il, gan ddod yn 4ydd yn gyffredinol. Diolch i bawb fu'n helpu dros yr wythnosau diwethaf gyda'r paratoi ar gyfer y Ffair Aeaf. Mae'r clwb yn ddiolchgar iawn.

## CFfI CLUNDERWEN

Gwahoddir chi i'n noson

GAROLAU NADOLIG BLYNYDDOL

Nos Fawrth,Rhagfyr 17eg
am 7.30yh

Siop Ladds Clunderwen

Mins Peis • Gwin twym • Raffl

## BINGO TWRCI

Nos Iau, Rhagfyr 19eg 2024
Drysau'n agor 7 yh
i ddechrau am 7.30
yn Neuadd Clunderwen
Dewch a'ch diod eich hun
6 Tudalen - £10

## TRELECH

**Penblwydd Hapus** arbennig i Maureen Rees, Blaendewi Fach a fu'n dathlu penblwydd arbennig yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Derrick Harries Fferm Felindre ar ddod yn ddatcu unwaith eto. Ganed Gwen i Nerys a Wil ac mae'n chwaer i Ioan. Pob dymuniad da i chi i'r dyfodol.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion yr ardal.

**Capel y Graig**

Cafwyd oedfaon bendithiol iawn yn ystod y misoedd diwethaf gyda'r Parchg Dyfrig Rees, Ysgrifennydd Cyffredinol yr Undeb, y Parchg Sian Elin Thomas yn ein gwasanaeth diolchgarwch a Sion Page.

Ar 20fed o Hydref, yr aelodau oedd yn gyfrifol am yr oedfa. Ar 27ain cawsom oedfa ddiolchgarwch hyfryd yr Ysgol Sul a'r bobl ifanc gyda Eirlys Phillips ac Eleri Rees yn cyfeilio. Mae casgliad y ddau wasanaeth yn mynd tuag at Ffynhonnau Byw.

TŷBACHTWT
ANRHEGION • GIFTS
• CRYMYCH •
01239 831141/ 07900 692678

ORW LTD
TRADING AS
DORIAN PHILLIPS
Owain: 07879 495653
Owain @dorianphillipsbuilders.co.uk

Adrian Llewellyn
Groundworks Cyf



Dros 30 mlynedd o brofiad yn clirio daear
Gwasanaeth proffesiynol cyflawn
Pob agwedd o waith concrid i'r fferm
Gosod pibau a chebl
Ffensio, tirlunio, draenio
Llwynhelig, Llandysilio, Clunderwen
Ffôn / Ffacs: 01437 563425



Oedfa ddiolchgarwch

Cynhaliwyd y brif rihyrsal eleni ym Mryn Iwan ar y 6ed o Hydref a'r Gymanfa Ganu ym Mlaen y coed ar y 13eg o Hydref. Yr arweinydd gwadd oedd Mrs Nicki Roderick, Caerfyrddin a chawsom ganu arbennig o dda o dan ei harweiniad. Diolch i blant yr Ysgol Sul am adrodd y penillion ac i'r aelodau a chyfeillion wnaeth fynychu.

Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch Ysgol Hafodwenog ar Hydref 17eg gyda'r Parchg Wyn Thomas yn annerch y plant. Braf oedd gweld cynifer o rieni a ffrindiau yn yr oedfa. Roedd y casgliad tuag at Aren Cymru.

Am yr ail flwyddyn daeth aelodau a chyfeillion ynghyd i'r cyfarfod anffurfiol ar y 31ain o Hydref i ddathlu Diwrnod yr Holl Saint trwy gynnu cannwyll i gofio am anwyliaid, dathlu ac i rannu gobaith.

Ar Dachwedd 10fed, cynhaliwyd oedfa o fawl gan gangen Trelech a Thalog Cymorth Cristnogol yng nghapel Bryn Iwan. Bu Buddug James Rees yn cyfeilio ac Iwan Bowen yn chwarae'r drymiau. Diolch iddynt ac i bawb wnaeth fynychu'r oedfa. Diolch hefyd i Eirlys Phillips am ei gwaith fel trysorydd y gangen.

Dyma drefn yr oedfaon dros yr wythnosau nesaf:
Tachwedd 17eg – oedfa gymun yng ngofal Mr Dafydd Evans am 1.30
Rhagfyr:
1af: Oedfa Goleuo'r Goeden
8fed: Oedfa a Bedydd yng ngofal Jean Lewis am 10.30
15fed: Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul a'r Ieuenctid am 1.30. Parti i ddilyn
24ain: Y Blygain am 11.30

## Elusen William Davies
## Plwyf Trelech a'r Betws

**YSGOLORIAETH**

Mae'r Ymddiriedolwyr yn fuan yn bwriadu dyfarnu ysgoloriaethau am y flwyddyn 2024/2025 ar gyfer personau sydd wedi cychwyn ar addysg bellach neu brentisiaeth crefft.
Gellir gwneud ceisiadau ar ffurflen osodedig erbyn yr 28ain o Chwefror 2025. Gellir cael y ffurflen cais wrth y clerc.
Disgwylir i pob ymgeisydd llwyddiannus gydnabod a diolch am yr ysgoloriaeth.
Clerc: Mrs Liza Jones, Treto Isaf, Trelech, Caerfyrddin, SA33 6SH.

07419137565 clerc@trelecharbetws.cymru

**YSGOLORIAETH**

Eleni eto mae Cyngor Cymuned Trelech a'r Betws yn cynnig ysgoloriaeth i'r myfyrwyr hynny sydd yn byw o fewn y gymuned, ac yn dilyn cwrs llawn amser, di-dâl mewn addysg bellach.

Dylai'r cais gynnwys manylion y cwrs, yn ogystal a llythyr gan diwtor y myfyriwr i gadarnhau'r manylion penodol. Bydd yr ysgoloriaeth yn cael ei roi yn mis Mawrth, a bydd rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y clerc erbyn 28ain o Chwefror 2025. Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach, cysylltwch a'r clerc.

# CWMFELIN MYNACH

**Ramoth**
Cafwyd gwasanaeth Mr Arwel Evans yn oedfa gymun mis Tachwedd, diolch iddo.

Rhagfyr
8fed: Cymundeb Donna George - 10.30
15fed: Oedfa Nadolig y teulu - 10.30

**Penblwydd**
Penblwydd hapus i Graham Bebb, Yr Encil Gwyn a fu'n dathlu ei benblwydd yn 75 oed ar Dachwedd 13eg. Cariad mawr wrth y teulu i gyd xxx


AWEN TEIFI
Dewis da o lyfrau Cymraeg i blant ac oedolion, hefyd cardiau a theganau
Ar agor 9yb - 5yh
Llun i Sadwrn
Ffôn: 01239 621370
23 Stryd Fawr
Aberteifi. SA43 1HJ

CENNYDD JAMES
- Adeiladwr
- Adeiladau newydd
- Adnewyddiadau
- Llwybrau a phatios
- Plastero a sgimio
- Adnewyddu simneiau

Gwasanaeth yn y Gymraeg!
Ffôn: 01239 831100
Ffôn Symudol: 07968 163181

Ifan Phillips 07788 424559
CANOLFAN REHAB CENTRE
therapi chwaraeon clinigol
ar gyfer poenau ac anafiadau cyffredinol sy'n gysylltiedig â chwaraeon a gwaith

# ALMA

Dymuna Gwawr Lewis, Neuadd, ddiolch yn fawr iawn am y cyfarchion, cardiau a rhodddion a dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd arbennig. Diolch o galon i bawb.

# LLANGYNIN

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Carys a Josef Forman ar enedigaeth eu merch fach, Alaw Mererid. Ganwyd Alaw yn ei chartref ar Hydref 15fed, 2024. Mae hi'n wyres gyntaf i Nigel a Sian Davies, Llain Deg, ac yn or-wyres i Granville a Mary Davies, Angorfa. Llongyfarchiadau mawr i'r teulu i gyd.



**Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn**

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Bryn brynhawn ddydd Sul, 27ain Hydref. Pregethwyd gan y Parch. Rhodri Glyn Thomas ac roedd hi'n bleser estyn croeso iddo i'r Bryn ac i groeswau cynulleidfa deilwng o aelodau a chyfeillion i ymuno yn yr addoliad. Diolch i Eifiona Lewis am gyfeilio ar yr organ. Casglwyd sawl bag o bethau ymolchi a phethau glanhau ar gyfer Lloches y Merched. Mwynhaodd pob un gymdeithasu gyda phaned a sgwrs cyn ymadael.

**Pen blwyddi arbennig**

Pen blwydd cyntaf hapus iawn i Caleb Davies, Awel-y-Bryn, a oedd yn dathlu ei ben-blwydd yn un oed ar Hydref 9fed.



Penblwydd hapus iawn i Rocco Tirion o Trem y Cwm, Llangynin, a oedd hefyd yn dathlu ei benblwydd cyntaf yn ddiweddar. Cafodd lawer o hwyl a sbri yn troi'n flwydd oed.



**Cwrdd Nadolig Capel y Bryn**

Cynhelir Cwrdd Nadolig Capel y Bryn am 2.30 o'r gloch brynhawn ddydd Sul, 22ain Rhagfyr. Dewch i ymuno â ni am glonc , paned a mins pei ar drothwy Gŵyl y Nadolig. Croeso i bawb.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Roy Reynolds, Tymore, ac â Llinos a Geraint, Carreglwyd, ar farwolaeth cefnder i Roy, sef Gethin Reynolds o Gaerfyrddin, Cofiwn am bob un o 'r teulu yn eu colled.

## Clwb 60

Ar brynhawn Iau hydrefol hyfryd ar Dachwedd 13eg cyfarfu'r gymdeithas yn Neuadd y Bryn.

Wedi trafod rhai materion cyflwynodd Les y cadeirydd, y wraig wadd sef Wenfys sy'n un o'n haelodau, i'n diddori am y prynhawn. Cawsom amser diddorol iawn wrth iddi rannu'i arbenigedd yn trin blodau. Mae Wenfys wedi bod yn ymwneud â blodau ers nifer o flynyddoedd, wedi rhedeg busnes ac wedi cael llwyddiant yn amryw Sioe ar hyd y wlad.

Cawsom ein gwefreiddio gan yr holl drefiannau a wnaeth gyda phwyslais ar y Nadolig a roedd yn eu paratoi mor ddiffwdan ac effeithiol a phob un yn wahanol. Roedd yn amlwg ei bod wedi gwneud ei gwaith cartref yn drylwyr iawn wrth gasglu'r holl flodau, y gwyrddni, a'r llestri i ddal y campweithiau.

Cafodd y pum trefniant a wnaeth ei rafflo ac roedd gwen a balchder ar wyneb pob un a fu'n lwcus i'w hennill. Cafwyd ddished ar y diwedd wedi ei baratoi gan Fanw a Marian.





**Detholiad o anrhegion Cymraeg a Saesneg o safon**

Ffôn: 07528 945287 / 07766 418843
Ebost: llawncariad@gmail.com
Facebook: Llawn Cariad
www.llawncariad.co.uk







- Bwydydd a diodydd o Gymru a thu hwnt.
- Bwydydd at ddeiet arbennig
- Bwydydd moethus
- Nwyddau glanhau ac ymolch naturiol
- Nwyddau wedi eu pobi yn y siop.
- Bwydydd cyflawn a chynhwysion bob dydd.
- Gwasanaeth archebu nwyddau a hampers ar gael drwy'r flwyddyn

1 Prospect Place, Crymych, SA41 3QQ
Ffôn: 01239 831537
e.bost: suzannejonesbyb@gmail.com

Prynhawn pleserus dros ben. Y Cinio Nadolig fydd y cyfarfod nesaf yn y Corvus yn San Cler ar Ragfyr 12fed.

## LOGIN

**Llongyfarchiadau** i Maureen a Gerwyn Eynon, Penrallt Fach a ddathlodd priodas Ddeiamwnt ar 28ain Tachwedd. Carreg filltir arbennig. Boed i chi gael nifer o flynyddoedd eto gyda'ch gilydd.

**Diolch**

Dymuna Maureen Eynon, Penrallt Fach ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cyfarchion, galwadau ffôn ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed ar y 19eg Hydref. Cafodd ddiwrnod i gofio gyda'r teulu yng Nghanolfan Treftadaeth Y Cardi Bach yn Login. Diolch i Peter a Dawn Towns am y tê a'r danteithion.

### *Priodas Ddiemwnt*



Llongyfarchiadau i Gerwyn a Maureen Eynon a fu'n dathlu eu Priodas Ddiemwnt at Dachwedd 28ain. Dymuniadau gorau wrth y teulu i gyd.

**Calfaria**

Oedfaon

Diolch o galon i Mrs Shan Jones, Parchedig Peter Thomas a Mrs Annalyn Davies am eu gwasanaeth yn ystod yr wythnosau diwethaf, gwerthfawrogwn hyn yn fawr iawn.

Dyma drefn yr oedfaon ar gyfer yr wythnosau nesaf :-

Rhagfyr
8fed: Tudur Dylan Jones - Cymun am 10.30
22ain: Cwrdd Nadolig dan ofal yr aelodau am 10.30

Ionawr
12fed: Shan Jones - Cymun am 10.30
26ain: Orinda Roberts - Cwrdd am 2

**Gymanfa Ganu**

Cynhaliwyd y Gymanfa Ganu blynyddol yng Nghapel Blaenconin, Llandysilio ar fore Sul, Hydref 20fed, dan arweiniad Angharad Edwards. Y cyfeilyddion oedd Ceirios Jenner a Jencyn Corp a cafwyd canu bendigedig gan y cantorion.

**Cyrddau Hanner Blynyddol Gymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion**

Cynhaliwyd cyrddau hanner blynyddol y Gymanfa yng Nghapel Salem, Llangennech ar brynhawn a nos Fercher, Hydref 23ain. Gwelir adroddiad amdano o fewn y rhifyn hwn.

**Cartref Glyn Nest**

Aeth 12 o aelodau Calfaria i gynnal oedfa yng nghwmni deiliaid Cartref Glyn Nest ar brynhawn Sul, Tachwedd 3ydd. Cafwyd darlleniadau gan Nigel a Faith, gweddi gan Eurfyl, darllenwyd barddoniaeth gan Ceirios a Beti, cyflwynwyd yr emynau gan Mefin, Sian, Les ac Eurfyl, cyfeiliwyd gan Ceirios a chanwyd caneuon swynol gan Beti a Sian. Cafwyd oedfa fendithiol iawn yng nghwmni preswylwyr y cartref a diolchodd Miss Beti Thomas (gynt o San Cler) yn ddiffuant i ni am ddod i gynnal oedfa yno. Roedd yn hyfryd i sgwrsio gyda hwy ar y diwedd a chafwyd cyfle i gymdeithasu ymhellach drwy fwynhau cwpaned o de a danteithion blasus. Edrychwn ymlaen i ddychwelyd i Glyn Nest i gynnal oedfa arall yno'n fuan.

**Gwellhad**

Dymunwn wellhad buan i Janet James sydd newydd dderbyn llawdriniaeth yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan hefyd i Tudur Lewis ac i Gerwyn Eynon wedi iddo gwympo ac anafu ei benglin.

**Croeso Adref**

Croeso nôl i Paul Owen sydd nôl adref yn ymweld â'i deulu a'i ffrindiau am gyfnod byr.

## CWM MILES

**Capel**

Trist yw cofnodi bod yr eglwys wedi colli aelod arall sef Mary Llewellyn, Gwynlais, Maenclochog (Pendre gynt). Gwelwn ei heisiau yn fawr. Cynhaliwyd yr angladd ar

FFENESTRI
M.W.J
WINDOWS
FFENESTRI, DRYSAU, YSTAFELLOEDD GWYDR A GWTERI
PVC-U
TY GWYN, LLANDISSILIO, CLYNDERWEN
01437 563 806 07774 812587

Caffi Beca
Oriau Agor 9.00yb–2.30yp
dydd Mawrth i ddydd Sadwrn
Efailwen
01994 419735

WYN'S TYRES
BRECIAU ac EGSOSTS
Galwch i mewn am brisau cystadleuol a gwasanaeth heb ei ail
UNED 1
WEMBLEY GARAGE
SAN CLER
Ffôn: (01994) 231599

ddydd Mawrth, 19eg Tachwedd yng nghapel Cwm Miles. Cydymdeimlwn â Meinir, Emrys a Maldwyn a'u teuluoedd. Diolch i staff Cartref Waungron am ei gofal arbennig ohoni yn ei dyddiau olaf.

Diolch i Dafydd Evans am ei wasanaeth ar y 3ydd o Dachwedd.

Pob dymuniad da i Mair John, Penyberth, Llandysilio sydd yn mynd i gael llaw driniaeth ar ei llygaid ddiwedd Tachwedd.

### Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen.

Cafwyd noson gwis hwylus iawn yn y ganolfan ar nos Wener, 8fed Tachwedd. Y cwis feistr oedd Lynn Burnell. Mawr fu y sbort a'r dadlau!! Noson gymdeithasol arbennig. Byddai'n hyfryd cael rhagor o gefnogaeth yn y noson gwis nesaf.



Dyma Lynn Burnell yn cyflwyno'r darian her i'r tîm buddugol sef Steve a Cathy O'Keeffe a Peter a Dawn Towns.

Cynhelir y noson garolau blynyddol yng Nghapel Cwm Miles ar Nos Sul, 15fed Rhagfyr am 7 o'r gloch. Mrs Ceirios Jenner fydd wrth yr organ. Edrychwn ymlaen at gefnogaeth dda. Bydd gwîn a mins peis i ddilyn ar y festri. Cesglir at elusen. (I'w drafod yn y cyfarfod nesaf)

Gwnaed rhagor o drefniadau i raglen 2024-25 yn y cyfarfod nos Fawrth, 19eg Tachwedd.




### Cylch Meithrin Ffynnonwen



Pob lwc i'r plant sydd yn mynd i'r ysgol llawn amser ym mis Ionawr.

## EFAILWEN

### Hoelion Wyth - Cangen Beca

Cyfarfod Hydref 30ain 2024

Croesawyd yr aelodau gan ein Cadeirydd, Eifion Evans a chyflwynodd ein siaradwraig wadd sef y Parchg Sian Elin Thomas o Crymych. Profiadau menywod yn y weinidogaeth oedd testun y noson. Dangosodd glip o un o gyfresi *Vicar of Dibley* pan oedd Geraldine y ficer newydd yn cyrraedd y plwyf ac yn cael ei chyflwyno i'r plwyfolion. Roedd yr ymateb tuag at ddyfodiad benywaidd yn un eithaf cyffredin i ymateb rhai tuag at ferched yn y weinidogaeth heddiw yn ôl Sian Elin.

Cafwyd hanes arloeswyr benywaidd cynnar yng Nghymru sef Sarah John Rees neu Cranogwen a oedd yn siaradwraig gyhoeddus galluog mewn cyfnod pan nad oedd yn arferol i fenywod draddodi. Roedd yn aml yn derbyn tipyn o wrthwynebiad wrth bregethwyr gwrywaidd wrth siarad o'r pulpud ond roedd yn hynod boblogaidd gyda'r gynulleidfa.

Arloeswraig arall oedd Rahel o Sir Fôn neu Rachel Davies a bu fyw o 1846 tan 1915. Pan yn ifanc roedd yn byw ym Mrynsiencyn a dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr. Erbyn y flwyddyn 1865 daeth yn adnabyddus iawn fel darlithwraig a phregethwr a wnaeth greu tipyn o anniddigrwydd ymysg y Bedyddwyr ar y pryd. Yn 1866 ymfudodd i fyw yn America a hi oedd y fenyw gyntaf i gael ei ordeinio i'r weinidogaeth yn nhalaith Wisconsin, U.D.A. Yno priododd ddyn oedd yn wreiddiol o Dregaron o'r enw Edward Davies a chawsant un mab o'r enw Joseph. Daeth Joseph yn enwog fel cyfreithiwr ac fe oedd yr ail lysgennad yr Amerig yn Rwsia. Ail briododd gwraig o'r enw Marjorie Merrweather Post yn 1935, menyw oedd

yn cael ei ystyried yn un o'r rhai cyfoethogaf y wlad. Roedd ganddi dŷ mawr (plasdy) yn Palm Beach Florida o'r enw Mar-a- Lago. Erbyn hyn mae'r adeilad yn un o gartrefi Donald Trump.

Ychydig o hanes Sian Elin cawsom wedyn, Mae hi'n un o dair chwaer, ac yn ferch i'r diweddar Ann a Vernon Rees. Mae teulu ei mam o ardal y Ferwig a theulu ei thad o ardal Boncath. Priododd â Dylan - mab un o aelodau cangen Beca (Ken) yn Nghapel Siloam, Y Ferwig ac mae ganddynt dau fab. Buodd yn weithgar gyda Aelwyd yr Urdd yn Nghrymych yn canu, actio ac fel arweinydd.

Yn dilyn gyrfa gwaith gweinyddol a chynorthwyydd dosbarth mewn ysgol gynradd, penderfynodd Sian Elin fynd i bregethu yn 2017. Mae'n cofio treulio oriau ac oriau yn paratoi pregeth cyn ei chyflwyno am y tro cyntaf yn Nghapel Penybryn. Hefyd yn 2017 aeth fel myfyrwraig rhan amser i Goleg y Bedyddwyr Caerdydd lle bu yr Athro Barchedig Densil Morgan a'r Athro Barchedig Rosa Hunt yn ddylanwad arni. Cafodd lawer o gymorth ac anogaeth hefyd gan y Parchedigion Beti Wyn James ac Irfon Roberts.

Ordeiniwyd hithe yn Nghapel Y Graig, Castellnewydd Emlyn ac Ebeneser Dyfed yn 2021, ac ers 2023 mae hefyd yn weinidog ar gapel Penybont, Llandysul gan greu Gofalaeth Bro Cemaes Dyffryn Teifi. Yn ychwanegol i'r ofalaeth mae Sian Elin hefyd yn Gaplan ar Gartref Gofal y Bedyddwyr Glyn Nest. Cyn iddi orffen dangosodd glip ffilm o Aelwyd yr Urdd Crymych yn canu 'Gobaith yn y tir' yn ystod Eisteddfod yr Urdd 2003. Pwysleisiodd bod yn rhaid cael gobaith yn enwedig yn yr oes lle mae crefydd ar drai.

Cawsom noson hwylus a difyr iawn yng nghwmni Sian Elin a diolchwyd iddi gan Eifion. Diolch hefyd i Robert am ddefnydd y lleoliad ac am ddarparu'r cawl arferol ar ein cyfer.



Sian Elin Thomas yng nghwmni Eifion Evans, Ken Thomas ac Eurfyl Lewis

# LLANBOIDY

**Chwaeroliaeth**
Cyfarfu'r aelodau ar brynhawn Mercher, Hydref 16eg o dan lywyddiaeth Wenfys Rees. Croesawodd pawb, ynghyd â'r wraig wâdd Meleri Bowen i'r cyfarfod. Mae Meleri wedi sefydlu busnes o'r enw Hafan Holistaidd a bu'n trafod y gwahanol therapiau mae'n cynnig, gan ganolbwyntio ar Adweitheg ac bu'n dangos sut gall arferion therapi atgyrch gweithredol sy'n para tua 20 munud ein helpu, a chafodd yr aelodau gyfle i gymryd rhan yn yr ymarferion. Diolchodd Wenfys iddi am brynhawn buddiol. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Anne Lewis a Rose Saer.



Y Chwiorydd gyda'r gwestai Meleri Bowen

**Sefydliad y Merched**
Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref ar y 10fed o'r mis o dan lywyddiaeth Denise Harries. Croesawodd y gwestai sef Philippa Scannel, bu'n dangos sgiliau hunan amddiffyn a diolchodd Denise iddi am noson adeiladol. Roedd y te a'r bisgedi o dan ofal Valerie a Sylvia.

**Llongyfarchiadau** a dymuniadau gorau i Hubert Phillips, Waunfawr ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 90 oed ar Dachwedd y 15fed, ac i Ronnie Morgan, 3 Piccadilly hefyd yn dathlu ei ben-blwydd yn 90 oed ar Ragfyr 23ain.

**Dymuniadau gorau** i Rodney Williams ac Eiry ar ôl i Rodney ymddeol o redeg siop y pentref wedi 55 o flynyddoedd a'r Swyddfa Post am 31 mlynedd.

## *Penblwydd hapus yn 90 oed*



Dymuniadau gorau i Hubert Phillips a fu'n dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Dachwedd 15fed.

Oddi wrth Margaret a'r teulu cyfan.

*Portread gan Neville Phillips*

## Penblwydd Hapus yn 90 oed



Penblwydd hapus i Ronnie Morgan, 3 Piccadilly Square, Llanboidy a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Ragfyr 23ain. Oddi wrth Mair, Gillian Joyce a Dai xx



Penblwydd hapus i datcu a hen ddatcu arbennig ar ei benblwydd yn 90 oed ar Ragfyr 23ain. Cariad mawr wrth yr wyrion a'r gor wyrion i gyd xx

## *Priodas Dda*




Llongyfarchiadau i Alun a Sophie Griffiths o Lanboidy a briodwyd ar Fedi'r 14eg â'r dathlu ar Fferm West Regwm, Hen dŷ Gwyn.

Yn ystod y prynhawn, bu Trystan Llŷr yn canu i'r pâr lwcus, gwobr Anti Shân (sef modryb Alun, Shân Griffiths), a brynwyd yn yr ocsiwn i gofio am Marc Beasley yng Nghlwb Rygbi Crymych ddiwedd Awst.

Hefyd, trosglwyddwyd crys rygbi Marc i Alun, un o'i ffrindie gore, crys a brynwyd yn yr un ocsiwn gan Eirian James, Cadeirydd Clwb Chwaraeon Llanboidy. Diolch i'r holl gysylltiadau.

Dydd i'w gofio yn wir!

# C Ff I PENYBONT

Cafodd aelodau'r clwb lwyddiant mawr yn Eisteddfod CFfI Sir Gâr gan ennill y darian am y nifer fwyaf o farciau. Dyma'r canlyniadau

**1af**

Ensemble Lleisiol
Unawd Offerynnol - Daniel O'Callaghan
Llefaru 28 neu iau - Daniel O'Callaghan
Unawd 17 neu iau - Celyn Richards
Unawd 28 neu iau - Sioned Beynon
Cystadleuaeth i aelodau 28 neu iau - Fiona Phillips
Deuawd dan 28 oed - Hannah a Celyn
Parti Llefaru
Parti Deusain
Unawd Sioe Gerdd 28 neu iau - Hannah Richards
Côr Cymysg

**2il**

Llefaru 17 neu iau - Gwenan Morris
Canu Emyn 28 neu iau - Hannah Richards
Cystadleuaeth i aelodau 28 neu iau - Fiona Phillips
Unawd sioe gerdd- Celyn Richards
Y Gadair - Sara James
Meim
Adrodd Digri - Daniel O'Callaghan
Unawd Alaw Werin - Sioned Beynon

**3ydd**

Cystadleuaeth i Aelodau 21 neu iau - Elan Thomas
Unawd 28 neu iau - Daniel O'Callaghan
Darn heb atalnodi- Teleri James
Sgets
Unawd Alaw Werin - Hannah Richards a Daniel O'Callaghan

A chafodd Sioned Beynon ei dewis i ganu cân y Cadeirio.

Ac yna yn Eisteddfod CFfI Cymru yng Nghaerfyrddin, daeth llwyddiant i aelodau'r clwb a oedd yn cynrychioli Sir Gâr.

**1af**

Côr Sir
Parti Deusain
Unawd Sioe Gerdd 28 neu iau - Hannah Richards, gyda Hannah yn ennill y tlws am y perfformiad gorau.

**2il**

Unawd offerynnol - Daniel O'Callaghan
Llefaru dan 28 - Daniel O'Callaghan

**3ydd**

Unawd 28 neu iau - Sioned Beynon

Llongyfarchiadau hefyd i Sioned Page Jones - llywydd y dydd yn CFfI Cymru a Dai Baker a oedd yn Gadeirydd yr Eisteddfod.

# PWLL TRAP

Trist oedd clywed am farwolaeth Dilys Evans, Derwen Las. Bu farw ei gŵr, Ivor Evans, (Brynmelyn) rai blynyddoedd yn ôl. Cydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled.

Cydymdeimlwn, hefyd, â Peter ac Iris Jones a Dwyfor Morgan ar farwolaeth eu brawd-yng-nghyfraith, Howard Clark o Gaerfyrddin yn ddiweddar.

Dymunwn yn dda i Rhonna Thomas-Phillips, Maes yr awel sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar. Gobeithio ei bod nawr ar wellhad.

Hefyd, mae Jim Davies, Gorsfach, wedi derbyn llaw-driniaeth a threulio amser yn yr ysbyty. Gobeithio ei fod e ar wellhad hefyd.

Dymunwn benblwydd hapus i Arwel Jones, Garthrhos, a oedd yn dathlu ei benblwydd yn 70 oed ar Dachwedd 23ain.

Croeso nôl o Awstralia i Owain Evans, Crud y Wawr. Mae e adre am fis o wyliau ac ar Ragfyr 9fed bydd yn dathlu ei benblwydd yn 30 oed. Penblwydd Hapus iddo.

**Bethlehem Newydd**

Dymunwn benblwydd hapus i Ray Lewis, Lôn Ddewi, a oedd yn dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ym mis Tachwedd.

Cynhaliwyd oedfa undebol San Cler ym Methlehem Newydd ar Hydref 13ain pan y gwasanaethwyd gan Mererid Hopwood. Cafwyd oedfa hyfryd yn ei chwmni.

Ar Hydref 27ain cafwyd Oedfa Ddiolchgarwch gyda'r aelodau yn gyfrifol am y darlleniadau a gweddiau. Cafwyd oedfa hyfryd o ddiolch.

Ar Dachwedd 3ydd, Gobaith oedd thema'r oedfa. Eto bu'r aelodau yn cymryd rhan a chafwyd myfyrdod pwrpasol gan y gweinidog cyn iddo weinyddu'r Cymun. Dai Rees oedd yn cyfeilio. Braf hefyd yw mwynhau paned wedi'r oedfa. Diolch i'r rhai sy'n paratoi a gweini.

Cafwyd oedfa fendithiol dan ofal Mr. Dafydd Evans ar Dachwedd 10fed.

**Tŷ Croeso**

Hoffai Annalyn ddiolch am y cyfarchion penblwydd a'r gacen yn Croeso Cynnes. Syrpereis hyfryd iddi!
Mae Lloyd yr Arlunydd Graffiti wedi ymweld â Croeso Cynnes i greu a dangos ei waith.

Trefnodd y Men's Shed fore coffi Macmillan mewn cydweithrediad â Chroeso Cynnes. Bu nifer o'r dynion yn pobi a chodwyd **£900** at yr elusen. Dyma lun a dynnwyd ar ddiwedd y Bore Coffi a phopeth wedi ei werthu.



Cafwyd ymateb gwych i'r apêl am nwyddau hylendid i'r Lloches Menywod yng Nghaerfyrddin. Hefyd mae casgliad mawr o ddillad wedi eu cyfrannu at Coda
Ni a derbyniwyd llawer o nwyddau at Plant Dewi.
Gwerthfawrogir pob cyfraniad tuag at yr elusennau hyn.

Mae Grŵp Trafod y Beibl, o dan arweiniad y Parch. Guto Llywelyn, yn cyfarfod bob pythefnos ym Methlehem Newydd y tymor hwn a cheir trafodaethau difyr.
Dyma lun o'r Grŵp yn mwynhau cacen ar ddiwrnod penblwydd Annalyn.



**Diolch:** Dymuna Doreen Thomas, Maesyblodau, Pwll Trap, ddiolch i bawb sydd wedi ei chynorthwyo yn dilyn ei llaw-driniaeth. Diolch arbennig i Alun a Lawrence am eu gofal, i'w holl ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ac am bob carden a galwad ffôn.

PEIRIANNEG
MARC JAMES CYF
Marc James Engineering Ltd
GWAITH PEIRIANYDDOL AMAETHYDDOL
GWASANAETH • ATGYWERIO
Y Gweithdy
Llwyncelyn
Clunderwen
SA66 7HL
01437 563930
07831 149237
marcjamesengineering@btconnect.com

WYN DAVIES a'i FRODYR
ADEILADWYR
Golygfa'r Cwm
Ffynnonwen
Login
Hen Dŷ Gwyn ar Daf
Ffôn. 01437 563300

GAREJ WYN CYF
Uned 1 Parc Gwynfryn
Crymych, Sir Benfro
SA41 3RG
MOT
Gwasanaeth •Atgyweirio
Teiars • Batris
Ffôn: 01239 831300
Ffacs: 01239 831853

# LLANDDEWI

**Bethel**



Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Blynyddol Bethel, Llanddewi ar ddiwedd mis Hydref. Y pregethwr gwadd oedd y Parch. Shirley Murphy, Meidrim. Shirley yw'r wraig gyntaf o India i gael ei ordeinio gan yr Eglwys yng Nghymru. Mae yn llawn brwdfrydedd ac egni a chafwyd pregeth rymus ganddi yn ein annog i ddal ati ac i ddarganfod ffyrdd newydd cyffrous o drosglwyddo yr efengyl i bobl heddiw.





Cymdeithasu ar ôl y Cwrdd Diolchgarwch

# BANCYFELIN

**Capeli Cana a Bancyfelin**

Bu nifer o aelodau Cana a Bancyfelin yn bresennol yng nghinio dydd Sul yr Ofalaeth yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg, Caerfyrddin yn ddiweddar. Cafwyd pryd bwyd blasus a chyfle i gymdeithasu. Daeth cwmni ffyddlon ynghyd i'r Fox & Hounds ar gyfer ein Paned a Sgwrs misol, ac mae aelodau'r ddwy eglwys yn brysur yn casglu tegannau i gefnogi Apêl Anrhegion Nadolig Cyngor Sir Gâr drwy gydol y mis. Cynhaliwyd prynhawn cymdeithasol hwylus iawn yn festri Cana yn ystod mis Tachwedd pryd rhannodd ein gweindiog, Y Parchg Beti-Wyn flas o'i swydd fel Arwyddfardd Gorsedd Cymru.

Teithiodd rhai o aelodau Capel Bancyfelin i Lanarthne ar nos Iau, 14eg Tachwedd i eisteddiad o Henaduriaeth Myrddin a chael y fraint o dystio i ddwy o'n haelodau, Veronica Evans a Trefina Jones gael eu hordeinio'n flaenoriaid.



Cinio'r ofalaeth



Criw Capel Bancyfelin yn oedfa Ordeinio Trefina a Veronica yn flaenoriaid

Cynhaliwyd oedfaon bob Sul dan arweiniad ein gweinidog a rhyddhawyd oedfa digidol wythnosol. Mae

PHILLIPS A MORRIS
ADEILADWYR
Central, Clunderwen
Symudol:
07775 697803
07920 060956




Pridd wedi sgrinio ar gyfer blodau, llysiau neu lawnt, hefyd gwasanaeth hurio treilar



Gwasanaeth hurio cloddiwr 3 tunnell
Cludiant am ddim hyd at 6 milltir
GWION JENKINS
Ffôn: 01994 419222
Symudol: 07787 826574

paratoadau'r Nadolig eisioes ar y gweill ac mae croeso i chi ymuno â ni ar ei gyfer. Bydd Oedfa Nadolig yn cael ei chynnal bnawn Sul, 15fed Rhagfyr am 1.30 yn y festri yng nghwmni plant a phobl ifanc yr Ysgol Sul gyda pharti i ddilyn. Cynhelir Gorymdaith Nadolig ym mhentref Bancyfelin nos Sul, 22ain Rhagfyr yn cychwyn am 6 o'r gloch o mynedfa Wenallt. Bydd oedfa dan olau cannwyll i ddilyn yn y capel gyda phaned a mins pei. Dymuna gweinidog ac aelodau Capeli Cana a Bancyfelin bob hwyl a bendith i ddarllenwyr y Cardi Bach dros Ŵyl y Nadolig.

**Gibeon**

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal yr Ysgol Sul ar fore Sul, Hydref 20fed. "Gofalu am ein planed ni " oedd thema'r gwasanaeth a bu'r plant a'r ieuenctid yn cymryd rhan drwy ddarlleniadau, gweddiau a chaneuon. Cafwyd darlleniad gan Iona ac yna anerchiad pwrpasol gan Beti -Wyn. Hilary oedd yn cyfeilio a gwnaed casgliad tuag at waith yr Ysgol Sul.



Annalyn a fu'n gweinyddu'r Cymun. Wrth ddod at fwrdd y Cymun darllenodd Annalyn ddatganiad wrth Gyfundeb Gorllewin Caerfyrddin oedd yn gofyn i ni gofio pawb sydd wedi dioddef yn y rhyfel yn y Dwyrain Canol ac i weddio am heddwch. Darllenwyd dwy weddi gyda'r gynulleidfa yn ymateb yn y weddi. Oedfa fendithiol.

Cynhelir yr Oedfa Nadolig ar brynhawn Sul, Rhagfyr 15fed am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. Os dymunwch, gwisgwch siwmper Nadolig. Bydd paned a mins pei yn dilyn yr oedfa.

**Penblwydd hapus** i Peter Howells, 20 Bancyfelin a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 80 oed ar Ragfyr 14eg. Dymuniadau gorau wrth Nesta a'r teulu i gyd.

# SAN CLER

Penblwydd Hapus i Lloyd Davies, Dôl Las, Rhiw'r Orsaf, a fydd yn dathlu ei benblwydd yn 90 oed ar Ragfyr 13eg.



Dewi Griffiths (93 oed) yn barod i osod torch ar y gofeb ar ran Henoed San Cler ar Sul y Cofio.

**Sioe Ffasiynau Pethau Olyv**

Trefnodd Olive ac Yvonne sioe ffasiynau yn Ysgol Griffith Jones ar Hydref 18fed. Roedd y neuadd yn llawn a bu'n noson hyfryd gyda chyfle i fwynhau'r dillad, y siaradwyr a'r canu yn ogystal â chymdeithasu. Yvonne ac Olive oedd yn cyflwyno pob peth yn eu ffordd ddifyr eu hunain. Roedd elw'r noson a'r raffl yn mynd tuag at elusen Tir Dewi.



Llywydd y noson oedd Bethan Picton-Davies a chafwyd araith bwrpasol ganddi i agor y noson.

H THOMAS a'i FAB
Peiriannydd Amaethyddol



Partiau, Gwasanaeth
Tractorau Newydd ac Ail-law
Ffôn: 01994 240349 / 240770

D. E. PHILLIPS
a'i Feibion
TANYBRYN, GLANDWR
Trydanwyr
Siop Radio a Theledu
CRYMYCH
Setiau ar werth
Ffôn: 01994 419361 / 01239 831589

Y GARREG LWYD
Heol Salem, Sancler
Cartref Oddi Cartref


Ffoniwch y rheolwraig
01994 230855

Bu'r Parchedig Canon Eileen Davies yn son am waith Tir Dewi a braf oedd cael Wyn Thomas o'r elusen yn bresennol hefyd. Cafwyd perfformiad hyfryd gan Gôr Clwb Rygbi Castell Newydd Emlyn. Tynnwyd y raffl gan Maer Sancler, Annalyn Daves.

Diolch i bawb a wnaeth y noson mor llwyddiannus, yn enwedig Tîm Pethau Olyv, sef Olive, Yvonne, Judith, Jackie, Marlene a Myra a noddwyr y noson, yn enwedig Brian Jones, Castell Howell a Colin Harries, London House Butchery, Hendygwyn.







## Atgofion melys o Gapel Trinity, Heol yr Orsaf, San Cler, gan un o blant y Capel



Bydd rhai ohonoch yn fy 'ngofio fel Wendy Williams, neu Wendy Stinsford. 'Rwyn byw bellach yng Ngwlad yr Haf, neu Somerset, ond efo ffrindiau o hyd yn ardal San Cler, 'rwyn dal i fyny gyda newyddion lleol. Gwelais yn ddiweddar fod Capel y Trinity ar werth, ac un o'm ffrindiau, Wilma, Rhyd y Gors, yn tynnu fy sylw at erthygl Dafydd Williams am hanes y Capel yn rhifyn Medi o'r Cardi Bach.

'Roedd ei ymchwil am y Capel yn ddiddorol ac yn arwain i mi feddwl am y rhan fawr oedd y Capel wedi chwarae yn fy mhlentyndod.
'Roeddwn yn mynychu yr Ysgol Sul yn rheolaidd, a gan ein bod yn gorfod dweud adnod o'r Beibl bob tro, fy ffefrynau oedd y Gwynfydau, a byddwn yn eu hadrodd dro ar ôl tro.

Yn aml ar fore Sul byddem yn y gwasanaeth a'r bregeth fel arfer yn hollol Gymraeg, minnau ddim yn ei dilyn ac yn ymddiddori yn fy 'mhen yn gwneud ambell gwis mathemateg o'r rhifau yr emynau ar y bwrdd ar y wal! Fy nghysylltiad agosaf efo'r Capel pan yn blentyn oedd drwy fy mam, Beryl Williams, hi oedd yr organyddes am flynyddoedd lawer. 'Roedd yn hoff iawn o'r organ, ac er ei bod wedi chwarae sawl organ yn y capeli a'r eglwysi yn yr ardaloedd cyfagos, 'roedd yn gadarn ei barn mai organ Trinity oedd y gorau o bell ffordd!
'Roedd gennym siop deuluol yn Stinsford a phob prynhawn dydd Mercher pan fyddai'r siop ar gau am hanner diwrnod, byddai Mam yn mynd i ymarfer ar yr organ. Ambell waith byddem gyda hi, yn eistedd ar ffwrwm yr organ, yn synnu ar ei thraed yn gweithio'r pedalau ac yn ei helpu efo'r stops, Bourdon, Diapason, a Flute, geiriau ddaeth yn gyfarwydd i mi, ac yn eu cofio hyd heddi. Yn cael digon ambell waith ar eistedd wrth yr organ byddem yn dringo i fyny i'r pulpud i esgus dweud pregeth!

'Roeddem yn hoff iawn o'r cwrdd cymundeb, yn arbennig y platiau arian prydferth yn dal y gwydrau bach a'r plat arian uwchben yn dal y bara. Byddai rhain yn cael eu dosbarthu gan y diaconiaid, Dafydd Williams, Mr Llew Evans, Mr Dan Evans y swyddfa bost, a Mr Nicholas, os rwy'n cofio yn iawn.

Pan oeddwn mewn oedran i ddod yn aelod ac yn medru cymeryd y Cymun, rwy'n cofio teimlo yn browd iawn. Cyn hynny, pan oedd y Cymun yn cael ei weini, byddai mam yn rhoi losinen i mi, mint imperial! Rwy'n cofio y cylchoedd bach o fetal ar silff y corau lle 'roedd y gwydrau gwag yn cael eu rhoi ar ol y Cymun, y tincian pan oeddent i gyd yn eu lle yn ddiogel.

Atgof hyfryd arall oedd y parti Nadolig yn y festri. Byddai ein coeden Nadolig ni yn dod o'r ty i'r festri a'r cacennau yn dod o'r siop, canu carolau Cymraeg. Ymhen amser bu fy mhriodas yn Trinity, y pregethwr Y Parch Haydn Thomas yn cynnal y gwasanaeth. Felly mae gen i ddigon o luniau i ddwyn i gof.

Rwy'n ddiflas i weld fod y capel nawr ar werth, rhaid derbyn fod y drefn yn newid. Ond beth am yr organ? Gobeithiaf wir y bydd lle iddi rhywle i gael ei thrysori.

*Diolch o galon i Wilma Robins am drefnu'r erthygl hyfryd hon.*

# LLANWINIO

**Swper Cynhaeaf**

Ar nos Wener, Hydref 18fed, cynhaliwyd Swper Cynhaeaf yn y neuadd gymunedol, a hynny dan nawdd Pwyllgor Adloniant Llanwinio. Croesawodd y cadeirydd Geraint Evans tua chwe deg o drigolion y plwyf at eu gilydd i fwynhau cymdeithasu, a chael pryd o fwyd blasus oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Diolch i Lloyd a Eiddwen Howells am rostio'r mochyn. Yn ogystal, derbyniwyd nifer o wobrau raffl. Codwyd swm sylweddol tuag at ddatblygu'r cae chwarae yn Blaenwaun. Diolchwyd i bawb a gyfranodd tuag at lwyddiant y noson ac edrychwn ymlaen i gynnal gweithgaredd eto yn y dyfodol.

Pwyllgor Adloniant Llanwinio

**OEDFA GAROLAU**

yn Eglwys Llanwinio

**Nos Sul, Rhagfyr 22ain am 7 o'r gloch**

Arweinydd: Phillip Higginson

Organyddes: Jiwli Higginson

*Casgliad tuag at elusennau lleol*

Lluniaeth ysgafn i ddilyn yn y Neuadd

*Croeso i bawb*

## CYFARFODYDD HANNER BLYNYDDOL CYMANFA CAERFYRDDIN A CHEREDIGION

Capel Salem, Llangennech oedd cartref Cyfarfodydd Hanner Blynyddol y Gymanfa a gynhaliwyd ar 23ain Hydref o dan lywyddiaeth y Parch. John Treharne, Llywydd y Gymanfa. Agorwyd y gynhadledd yn y prynhawn gyda'r Is-lywydd, Mrs Dawn Richards, Providence, Cwmdu yn cymryd at y rhannau arweiniol.

Trafodwyd materion perthnasol i'r Gymanfa cyn gwahodd Y Parch. Ddr Christian Tucker-Williams i'n diweddaru ar gynlluniau Adroddiad 2041 Undeb Bedyddwyr Cymru. Siaradwr gwadd y prynhawn oedd John Settatree ar ran y BMS a chafwyd anerchiad ganddo yn dangos gwaith y mudiad ar draws y byd.

Yn dilyn sgwrsio a chymdeithasu o gwmpas y byrddau yn y Festri aethom yn ôl i'r capel ar gyfer yr Oedfa Bregeth. Y cyn-lywydd, Eurfyl Lewis arweiniodd y defosiwn cyn i ni gael y fraint o glywed gweinidog mwyaf newydd y Gymanfa y Parch. Gruffudd Jenkins yn pregethu. Hyfryd oedd clywed am fenter Eglwys Maescanner, Dafen yn galw gweinidog i'w gwasanaethu a dymunwn bob bendith ar y gwaith yn yr eglwys honno. Cyflwynwyd casgliad yr oedfa at waith y BMS a throsglwyddwyd y swm anrhydeddus o £300 at y gwaith.

Diolch yn fawr i bawb am gefnogi'r cyfarfodydd ac i weinidog, swyddogion ac aelodau Salem am y croeso a'r paratoadau ymlaen llaw ac i Alison Goodwin ac Allan Fewster am eu gwasanaeth wrth yr organ.

Bydd y Gymanfa yn cwrdd nesaf drwy gyfrwng Zoom ar gyfer yr oedfa weddi ddechrau'r flwyddyn ar nos Iau, 9fed Ionawr ac eto ar nos Fercher, 16eg Ebrill i oedfa bregeth y Pasg. Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar ddydd Mercher, 21ain Mai yng Nghapel y Tabernacl, Llwynhendy.



## Ymgyrch Codi Cerflun Twm Carnabwth



Diolch o galon i Mrs Barbara Morris o Cold Blow am ei rhodd hael o £500 tuag at yr ymgyrch. Bu farw ei gŵr Eddie Morris yn ddiweddar a'i ddymuniad ef oedd cefnogi'r ymgyrch codi arian ar gyfer codi cerflun i Twm Carnabwth. Rydym yn ddiolchgar iawn am y rhodd hael ac yn ei werthfawrogi'n fawr.

G. & J.M. Phillips
CONTRACTWYR TRYDANOL
Caerdaf, Spring Gardens, Hendygwyn ar Daf SA34 0HE
Ffôn: 01994 241015
Symudol: 07771 601412
NICEIC Contractwr Cydnabyddedyg

DERI PAGE
CIGYDD

Cig o'r ansawdd gorau
Heol y Pentre
San Clêr
Ffôn: 01994 230062
*Diolch am eich cefnogaeth*

GT TYRES

Arbenigwr mewn Teiars Ceir, Masnachol ac Amaethyddol
Brooklyn Garage
Heol y Castell
Aberteifi. SA43 3AE
☎: 01239 612814 / 07765 034705

Y CARDI BACH, BACH
Papur Bro Dyffryn Taf
CARIAD O BETH CARDI BACH

# YSGOL BRYNCONIN

**Dathlu'r 100!**



Braf oedd cael bod yn rhan o ddathliadau 100 mlynedd o CCF (Gwlad a Fferm) Clunderwen. Cerddodd plant o Ddosbarth Rhuddem lawr i Glunderwen ar 4ydd o Fedi er mwyn dysgu am hanes y busnes ac hefyd i gwrdd a'r pobl gwadd, sef aelodau o dîm rygbi Cymru. Dyma brofiad a hanner i'r plant.

**Llais y Disgybl - Senedd yr Ysgol**

Cynhaliwyd etholiadau dosbarth yn ystod dechrau mis Medi ar gyfer ein Senedd/Cabinet amrywiol. Llongyfarchiadau i'r plant am gael eu hethol i'r Senedd ac i'r Cabinet gwahanol ac edrychwn ymlaen i gydweithio gyda'r disgyblion i wella a datblygu'r Ysgol. Mae'r disgyblion yn barod wedi trefnu diwrnod Waldo Williams, cynllunio gweithgareddau Awyr Agored ar Ddydd Gwener Gwyllt a chreu awdit o adnoddau digidol yr Ysgol.



Dyma aelodau o Senedd Ysgol Brynconin am 2024-2025

**Diwrnod Waldo Williams**

Dathlwyd bywyd a gwaith y bardd lleol, Waldo Williams ar ddydd Llun, 30ain o Fedi. Cafwyd cyfle i fynd am dro o gwmpas y pentref ac ymweld â llefydd pwysig ym mywyd y bardd fel Capel Blaenoconin, ei hen gartref ac Ysgol Brynconin wrth gwrs lle oedd ei dad yn brifathro. Dysgwyd am ei hanes ac astudiwyd cerddi enwog y bardd, fel 'Pitran Patran.'

**Gweithdy Diogelwch Tân**

Braf oedd croesawu swyddogion tân i'r Ysgol ar brynhawn Mercher, 2il o Hydref i rannu gwybodaeth pwysig am gadw'n ddiogel adeg tân.

**Dysgu am y Beibl**

Bob wythnos mae Dosbarth Rhuddem (Blwyddyn 5 a 6) yn cael gwersi am y Beibl ac yn cael hwyl wrth ddysgu, gwrando a darllen am storiau o'r Hen Destament.

**Diwrnod Shwmae!**



Da iawn i aelodau Cabinet Iaith a Diwylliant am drefnu diwrnod llawn hwyl ar 15fed o Hydref, sef diwrnod Shwmae. Gwisgodd pawb mewn coch, gwyn a gwyrdd ac fe wnaeth rhai fentro i wisgo fel person enwog o Gymru. Cafwyd cyfle i fynd ar barêd o gwmpas y pentref er mwyn dweud 'Shwmae' wrth drigolion Llandysilio, cynhaliodd y plant hŷn gwis Cymraeg i'r plant lleiaf, rhannwyd hoff air Cymraeg y plant a chafwyd disgo Cymraeg i orffen y diwrnod mewn steil.

**Dangos y Garden Goch i Hiliaeth**

Da iawn i aelodau Senedd Ysgol Brynconin am drefnu diwrnod coch ar ddydd Gwener, 18fed o Hydref er mwyn dysgu mwy am hiliaeth.

**Cogurdd a Phoburdd**

Da iawn i bawb a gymerodd ran yng nghystadleuaeth Cogurdd a Phoburdd a gynhaliwyd ar brynhawn Gwener, 18fed o Hydref. Diolch o waelod calon i Miss Shirley am roi ei hamser i feirniadau. Roedd y safon yn uchel iawn a llongyfarchiadau enfawr i Anwen a ddaeth yn fuddugol yn y Cogurdd ac i Deri a ddaeth yn fuddugol yn y Poburdd. Dymunwn yn dda i'r ddau pan fyddant yn cynrychioli Ysgol Brynconin yn rownd sirol ar yr 21ain o Dachwedd

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cafwyd prynhawn arbennig yng Nghapel Pisgah, dydd Mercher, 23ain o Hydref pan gynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch. Braf oedd cael mynd yn ôl i'r capel a braf hefyd oedd cael y rhieni a'r gymuned yn rhan o'r gwasanaeth. Ein thema eleni oedd 'Lliw a Llun' a diolch i'r plant am berfformio eu rhannau mor dda. Diolch hefyd i Mrs Catrin Thomas o Faenclochog a roddodd anerchiad arbennig a phwysig i'r plant, i aelodau Capel Pisgah am adael i ni ddefnyddio'r Capel ac i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at ein casgliad i'r elusen 'Patch'.

# YSGOL GRIFFITH JONES

**Diwrnod T Llew Jones**

Ar Hydref 11eg cafodd ein disgyblion lawer o fwynhad wrth ddathlu Diwrnod T.Llew Jones. Bu'r plant yn ymchwilio i fywyd yr awdur enwog, creu delweddau, darllen storiau a chreu dawns arbennig i gyd-fynd gyda cherdd 'Dawns y Dail.'

**Diwrnod Shwmae Sumae**

Roedd hi'n hyfryd clywed disgyblion yr ysgol yn cyfarch ei gilydd a'r staff gyda gwên a 'Shwmae'. Roedd y dosbarthiadau yn llawn cyffro a chynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau i ddathlu'r diwrnod arbennig hwn.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**



Braf oedd croesawu rhieni disgyblion Blwyddyn 6 i ymuno â ni yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Cyflwynwyd eitemau amrywiol gan y disgyblion. Diolch i'r Parchedig Guto Llewelyn am annerch y plant. Casglwyd tuag at Fanc Bwyd Hendy-gwyn. Diolch yn fawr i Helen Ryan o Fanc Bwyd Hendy-gwyn a ddaeth i gasglu'r holl fwyd gyda chymorth y Cyngor Ysgol.

**Parti Calan Gaeaf CRAFf**

Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang unwaith eto ym mharti Calan Gaeaf y gymdeithas. Roedd y disgyblion a nifer o rieni wedi gwneud ymdrech arbennig gyda'u gwisgoedd.

**Gwersyll Pentywyn**



Cafodd Blwyddyn 6 Pwyll a Myrddin amser hwylus iawn yng Ngwersyll Pentywyn. Bu'r plant yn cymeryd rhan mewn tasgau awyr agored gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau cyd-weithio fel tîm. Cafodd y plant gyfle i ddatblygu sgiliau gan gynnwys dringo, canŵio a chyfeiriannu. Diolch i staff y gwersyll am eu brwdfrydedd wrth hyfforddi'r plant.

**Cogurdd**

Bu 41 o ddisgyblion yn cystadlu yng nghystadleuaeth Coginio'r Urdd – Cogurdd. Y dasg oedd i baratoi 'wrap'. Roedd yn rhaid i'r plant arddangos sgiliau cynllunio, trafod cyllell, gweithio i amser ac arddangos y bwyd yn ddeniadol. Aeth criw o bedwar o fuddugwyr ymlaen i greu byrger fel ail gwrs sef Ethan, Cora, Evie a Lili Jones. Llongyfarchiadau i Lily Jones a ddaeth yn fuddugol a bydd yn cystadlu yn rownd y rhanbarth cyn ddiwedd Tachwedd. Pob lwc iddi a da iawn i bawb a wnaeth gystadlu.

**Poburdd**

Am y tro cyntaf eleni fe gynhaliwyd cystadleuaeth 'Poburdd' yn yr ysgol. Y dasg oedd coginio pedair cacen fach a'u haddurno, yna dod â nhw i'r ysgol i'w harddangos. Daeth llu o gacennau bendigedig, diolch i Mrs Angharad Lloyd am y gwaith beirniadu anodd! Y buddugwyr oedd Alffi Jac, Tomos a Stanley.

**Sul y Cofio**

Bu'r Cyngor Ysgol yn gwerthu pabis coch i godi arian i'r Lleng Brydeinig Frenhinol. Aeth y Cyngor ynghyd â disgyblion Dosbarth Branwen i lawr i'r gofeb i osod torch gan ymuno mewn gwasanaeth 'Cofio' arbennig gydag aelodau o'r gymuned leol.

**Plant Mewn Angen**

Cafwyd diwrnod o hwyl a sbri ar ddiwrnod Plant Mewn Angen. Daeth y disgyblion a'r staff i'r ysgol yn eu pyjamas gorau. Cynhaliodd y Cyngor Ysgol wasanaeth arbennig i atgoffa'r disgyblion o bwysigrwydd yr elusen yma.

**Chwaraeon**

Daeth aelodau o dim yr Urdd i gynnal gweithdai chwaraeon gyda dosbarthiadau Cam Cynnydd 2 a 3. Bu nifer o'r plant hefyd yn cystadlu yng nghystaelaethau Tag rygbi'r Urdd gan gynnwys tim merched Blwyddyb 5 a 6 a thim cymysg o Flynyddoedd 3 a 4.

Braf oedd croesawu Sarah o fudiad Criced Cymru i ddatblygu sgiliau criced disgyblion Blwyddyn 1,2 a 3.

**Ymweliadau**

Aeth disgyblion Blwyddyn 6 o ddosbarthiadau Pwyll a Myrddin i fwynhau perfformiad o sioe 'The Adams

Family' yn Ysgol Dyffryn Taf. Braf oedd gweld nifer o gyn-ddisgyblion ein hysgol yn rhan o'r sioe.

Teithiodd tair llond bws o ddisgyblion Blynyddoedd 3-6 i theatr y Lyric i fwynhau perfformiad o bantomeim cwmni Mega sef 'Culhwch ac Olwen'. Bu llawer iawn o weiddi a chwerthin gyda'r plant a'r staff wrth eu bodd gyda'r perfformiad!

**Cyngor Eco**

Bu'r Cyngor Eco'n brysur yn trefnu casgliad o hen ddillad i'w hail-gylchu ar gyfer cwmni 'Dragon Bags'. Codwyd £220 i'r ysgol ar ôl casglu 550Kg o ddillad! Fe drefnwyd gwasanaeth Eco arbennig hefyd dan arweiniad Annie Hart er mwyn pwysleisio pwysigrwydd ail-gylchu ein sbwriel yn hytrach na'i daflu, yn enwedig ar ein traethau.

**Ymwelwyr**



Daeth yr ysgol gyfan i'r ysgol yn gwisgo'r lliw coch er mwyn nodi diwrnod 'Dangos y cerdyn Coch i Hiliaeth'. Croesawyd Mrs Natalie Jones i gynnal gwasanaeth arbennig i godi ymwybyddiaeth y plant o'r neges bwysig yma.
Bu wedyn yn arwain gweithdy gyda Dosbarth Branwen ar thema caredigrwydd. Bu'n rhannu pennodau o'i llyfr newydd sbon gyda'r plant sef '20 o Bobol Lliwgar Cymru'.

Fel rhan o 'Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb' bu disgyblion Blwyddyn 5 Culhwch yn gweithio gyda Lloyd yr artist 'Graffiti' i greu byrddau arddangos sy'n rhannu negeseuon o garedigrwydd i'w harddangos ar y iard chwarae.



Gan fod dosbarthiadau Cam Cynnydd 2 wedi bod yn astudio bywyd yn yr 1960au fel rhan o'u gwaith thema, gwahoddwyd Mrs Margarette Hughes i'r ysgol i arddangos ychydig o'i chasgliad o ddillad a chreiriau o'r cyfnod i'r plant. Cafodd y plant lawer o hwyl yn teithio nôl mewn amser gyda hi i'r cyfnod lliwgar yma.

# YSGOL HAFODWENOG

**Mawrth Mwdlyd**

Yr ydym wedi dechrau cynnal Mawrth Mwdlyd yn wythnosol tymor yma. Mae'r disgyblion yn archwilio, creu a dysgu yn yr awyr agored yn defnyddio deunyddiau naturiol.

**Macmillan**

Llongyfarchiadau i'r Cyngor Ysgol am drefnu prynhawn coffi llwyddiannus yn yr ysgol. Bu'r disgyblion yn brysur yn gweini te a chacennau. Diolch i bawb am gefnogi, codwyd £394 i Macmillan.

**Cystadleuaeth Cae Glas**

Llongyfarchiadau i Cari-Haf, Marged a Sara am ennill cystadleuaeth yn nosbarth Cae Glas o greu clawr i'r llyfrau mathemateg, iaith a thema. Da iawn chi.

**Llysgenhadon Chwaraeon**



Dyma'r Llysgenhadon chwaraeon eleni. Pob lwc i chi ferched am y flwyddyn i ddod.

**Mr Urdd**



Daeth Mr Urdd i'n gweld yn ddiweddar. Cafwyd bore llawn hwyl a sbri yn ei gwmni. Diolch am alw.

**Cyngor Ysgol**



Penderfynwyd cael un cyngor eleni a fyddai'n cynnwys disgyblion blwyddyn 6 a chynrychiolaeth o flynyddoedd 2, 3, 4 a 5. Llongyfarchiadau i bawb.

Cafwyd cystadleuaeth hefyd i enwi'r Cyngor. Llongyfarchiadau i Lois am yr enw Hafod Hwylus.

**Actif**
Diolch i Actif am wneud sesiwn hyfforddiant ymarferol yn y Ganolfan Hamdden yn San Clêr. Roedd y Llysgenhadon Chwaraeon wedi mwynhau.

**CogUrdd**
Cynhaliwyd rownd gyntaf cystadleuaeth CogUrdd yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r 12 disgybl a wnaeth gymryd rhan. Y dasg oedd creu wrap sawrus oer ac roeddent i gyd yn edrych yn arbennig. Diolch i Mrs Rhian Howells-Jones am feirniadu.
Canlyniadau :
1af: Sara
2il: Lois ac Efa 3ydd Marged

Llongyfarchiadau i bawb a phob lwc i Sara yn y rownd nesaf.

**PobUrdd**
Cynhaliwyd cystadleuaeth PobUrdd yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r 10 disgybl am gymryd rhan. Y dasg oedd cyflwyno 4 myffin melys. Diolch i Mrs Rhian Howells Jones am feirniadu.
Canlyniadau:
1af Lois 2il Marged ac Efa 3ydd Eres ac Iwan

Llongyfarchiadau i bawb a phob lwc i Lois yn y rownd nesaf.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yng Nghapel y Graig yng nghwmni y Parchedig Wyn Thomas. Diolch i bawb am gefnogi, codwyd £300 i Aren Cymru.

**Ymweliad gan yr heddlu**
Cawsom ymweliad gan yr heddlu i siarad am gadw'n ddiogel yn ystod tymor Calan Gaeaf a than gwyllt. Diolch yn fawr.

**Dreigiau Bach**
Diolch i Dreigiau Bach am ddod i wneud sesiwn sgiliau gyda dosbarth Cae Glas a Rhos Fach.

**Pencampwyr Seiclo Olympaidd**



Bu'r Llysgenhadon Chwaraeon yn ffodus i gwrdd â Phencampwyr Seiclo Olympaidd yn ddiweddar.

**Diwrnod y Cofio**
Diolch i Canon Ann Howells am ddod i'r ysgol i gynnal gwasanaeth Dydd y Cofio.

**Plant mewn Angen**
Daeth pawb i'r ysgol yn gwisgo pyjamas am dâl o £2 a oedd yn cynnwys ysgytlaeth a ffilm. Diolch i'r Cyngor Ysgol am drefnu. Codwyd £101.05.

## YSGOL BANCYFELIN

**Recordio eitem Newyddion Ni**



Cafodd aelodau Blwyddyn 6 yr Ysgol gyfle arbennig i drafod pwysigrwydd y terfyn ugain milltir yr awr ar gyfer rhaglen deledu Newyddion Ni ar S4C.

Diolch o galon i Jacob am ddod i ffilmio yn yr Ysgol - mwynhaodd y plant y profiad yn fawr.

**Cyflwyno siec i Uned Cemotherapi Ysbyty Glangwili**






Dymuna Gyngor Ysgol Bancyfelin ddiolch o waelod calon am gefnogaeth rhieni a ffrindiau'r Ysgol yn ein Bore Coffi i godi arian i Uned Cemotherapi Glangwili a gynhaliwyd ar Hydref 4ydd 2024. Cafwyd bore hyfryd a llwyddwyd i wneud elw o £600 i'r uned.

**Gwasanaeth Diolchgarwch**





Diolch yn fawr i'r Parchedig Beti Wyn James ac aelodau Capel Smyrna, Llangain am eu croeso ar gyfer gwasanaeth diolchgarwch ein Ffederasiwn a gynhaliwyd ar Hydref 21ain 2024. Cafwyd gwasanaeth hyfryd a llwyddwyd i gasglu llawer o nwyddau angenrheidiol ar gyfer y Banc Bwyd yng Nghaerfyrddin. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd.

**Cyfle i gwrdd â dwy o Olympiaid Sir Gaerfyrddin**



Bu Llysgenhadon Chwaraeon Efydd yr Ysgol yn ffodus i gael y cyfle unigryw i gwrdd â dwy o Olympiaid Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Cawson nhw brynhawn hyfryd mewn sesiwn holi ac ateb yng nghwmni Emma Finucane a Jessica Roberts. Diolch i Actif Sir Gâr am drefnu.

# YSGOL BRO BRYNACH

**Pontio Ysgol Bro Preseli**

Trefnwyd diwrnod pontio i ddisgyblion blwyddyn 6 a fydd yn mynd i Ysgol Bro Preseli mis Medi nesaf. Cafodd y disgyblion gyfle i ddod i adnabod yr ysgol a'r staff yn ystod y dydd a mwynhau amryw o weithgareddau a drefnwyd ar eu cyfer.

**Diwrnod Shwmae Su'mau**

Cawsom ddiwrnod hwylus yn dathlu diwrnod Shwmae Su'mae eleni. Gwnaethom wisgo coch, gwyn neu gwyrdd ac ymgrymryd mewn amryw o weithgareddau hwylus yn ystod y dydd, fel gwrando i gerddoriaeth Cymraeg, orielodl a lliwio i ddathlu'r diwrnod. Diolch i'r Siarter Iaith am drefnu digwyddiadau a gweithgareddau hwylus yn ystod y diwrnod!

**Gweithdy Shocktober**

Diolch i Ambiwlans Cymru am eu cyflwyniad 'Shoctober'. Dysgodd disgyblion o flynyddoedd 3, 4, 5 a 6 am dechnegau achub bywyd a defnydd cywir o diffibriliwr.

**PobUrdd**



Ar y 11eg o Hydref gwnaeth 14 o ddisgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 gystadlu yn rownd ysgol PobUrdd. Y dasg oedd goginio 4 myffin melys adref a'i gyflwyno ar y diwrnod. Hoffwn ddiolch i Mr Balfour am feirniadu'r gwaith a llongyfarch Barnaby Cutler â wnaeth ennill y gystadleuaeth. Bydd Barnaby nawr yn mynd ymlaen i gystadlu yn rownd y rhanbarth ar ddiwedd mis Tachwedd. Pob lwc iddo a da iawn i bawb a gystadlodd.

**Trip Dysgu Sylfaen**



Cafwyd amser gwerth chweil ar ein trip ar drafnidiaeth yr hanner tymor yma. Roedd yn ddiwrnod prysur gyda ni'n teithio ar fws i Hendygwyn i ddal tren i Hwlffordd. Ar ôl cyrraedd Hwlffordd aethon ni draw i'r maes awyr i edrych ar awyrennau. Yna aethon ni lawr i'r porthladd yn Abergwaun i weld y fferi. Tra yn Abergwaun cafwyd y cyfle i fynd i weld y bad achub.

**Calan Gaeaf a Noswyl Tan Gwyllt**

Cafodd disgyblion o flynyddoedd 4, 5 a 6 ymweliad gan yr heddlu a'r frigad dân, gwnaethant ein atgoffa am sut i gadw'n ddiogel ac am beryglon yn ystod dathliadau Noson Calan Gaeaf a Tân Gwyllt.

**Sioe 'The Addams Family'**

Mwynhaodd pawb o flwyddyn 6 sioe 'The Addams Family' yn Ysgol Dyffryn Taf ar fore y 22ain o Hydref.

**Cwrdd Diolchgarwch**

Hyfryd oedd medru dychwelyd i Gapel Trinity yn y pentref ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni. Cyflwynodd pob dosbarth eitem hyfryd ar y thema Y Cynhaeaf. Daeth y Parchedig Guto Llywelyn atom i

annerch y plant a wnaeth rhannu stori â ni. Diolch yn fawr iddo am roi ei amser i ni. Casglwyd tuag at Ysbyty plant Brenhinol Orthapaedic yn Birmingham. Diolch i haelioni'r rhieni a'r gymuned, llwyddwyd i gasglu £280 ble mae un o'n disgyblion wedi derbyn triniaeth mawr a dal i dderbyn cymorth cyson yno.

**Rygbi Tag Cymysg Bl.3 a 4 a merched Bl.5 a 6 yr Urdd**
Ar ddydd Iau y 24ain o Hydref fe wnaeth disgyblion blwyddyn 3 a 4 a merched blwyddyn 5 a 6 gystadlu yn nhwrnamaint Tag rygbi'r Urdd. Ymdrechodd pawb a gwneud eu gorau glas.

**Sioe Culhwch ag Olwen**
Ar ddydd Iau y 7fed o Dachwedd cafodd dosbarth Cynin a Gronw y cyfle i fynd i'r Lyric yng Nghaerfyrddin i wylio pantomeim wedi'i seilio ar y chwedl Culhwch ag Olwen. Mwynhaodd pawb yn fawr iawn a diolch i gwmni Mega am drefnu pantomeim hwylus!

**Dydd y Cofio**
Braf oedd croesawu'r Parchedig Shirley Murphy atom i gynnal gwasanaeth am ddydd y Cofio ar fore Llun,11fed o Dachwedd. Yn ystod y diwrnod bu disgyblion yn creu pabi gan ddefnyddio deunyddaiu naturiol a chafwyd 2 funud o dawelwch.



Disgyblion y Dysgu Sylfaen yn cynnal dwy funud o dawelwch ar Ddydd y Cofio yn cofadail y pentref

**Sioe 'Cymrix' gan Arad Goch**
Ar ddydd Iau y 14eg o Dachwedd cafodd disgyblion dosbarth Cynin y cyfle i fwynhau drama 'Cymrix' gan gwmni Theatr Arad Goch. Roedd y ddrama wedi'i seilio ar hunaniaeth Gymreig, yr iaith Gymraeg a beth yw bod yn Gymry ifanc trwy lygaid tri person ifanc yn yr unfed ganrif ar hugain. Ar ôl y perfformiad roedd yna weithdy perfformio hwylus i'r disgyblion ble wnaethant archwilio themâu amrywiol a chreu rap am Gymru. Am hwyl a sbri!

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Dathlwyd diwrnod Plant mewn Angen ar ddydd Gwener y 15fed o Dachwedd. Gwisgodd y disgyblion dillad smotiog, cyfle i fwyta cacen blasus ac ymgymryd mewn gweithgareddau Pudsey. Codwyd £138.70 i'r elusen ar gyfer plant o phobl ifanc dan anfantais. Diolch i bawb am eu cyfraniadau hael.

Menter
Gorllewin Sir Gâr

**Busnesau Lleol yn Hapus i Siarad Cymraeg!**
Fel rhan o ddathliadau Diwrnod Shwmae Su'mae 2024, mae swyddogion Menter Gorllewin Sir Gâr wedi bod yn ymweld â busnesau lleol yn Hendygwyn-ar-Daf er mwyn eu hannog i ymuno â chynllun 'Hapus i Siarad'.

Mae'r ymgyrch, sy'n bartneriaeth rhwng Mentrau Iaith a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn cynnig cymorth ac adnoddau i siopau a busnesau bach lle mae aelod o staff yn siarad Cymraeg. Mae'r pecyn adnoddau hefyd yn cynnwys bathodynnau a syniadau am sut i annog pobl, yn enwedig dysgwyr, i siarad Cymraeg a magu hyder.



*Alfie o siop Cigydd Mark John yn cefnogi cynllun Hapus i Siarad yn Hendygwyn-ar-Daf.*

Mae dysgwyr, sy'n dilyn cyrsiau gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedla-ethol, wedi derbyn cardiau er mwyn casglu stampiau wrth sgwrsio yn Gymraeg gyda staff. Bydd y rhai sy'n llenwi'r cerdyn a'i ddychwelyd at eu tiwtoriaid cyn diwedd mis Mawrth 2025 yn cael cyfle i ennill penwythnos preswyl i ymarfer neu wella eu Cymraeg.

Mae croeso i berchnogion busnes gysylltu â'u Menter Iaith leol neu Fentrau Iaith Cymru i ymuno â'r cynllun.

Ydych chi'n gwybod am fwy?
Cysylltwch â nia@mgsg.cymru




Diolch i grwp Babanod a Phlant Bach Hen-dygwyn am y croeso ar ddiwrnod 'Shwmae S'umae' , mwyn-haodd Gwyneth yn eu cwmni. A braf gweld y plant a'u rhieni yn canu yn Gymraeg. Gobeithio y byddwn yn cael cyfle i ymweld â nhw cyn bo hir.

Hoffai'r fenter gymryd y cyfle hwn i ddiolch i ddarllenwyr y Cardi Bach am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Nadolig Llawen a dymuniadau gorau ar gyfer 2025.

# PENBLWYDD HAPUS



Penblwydd Hapus i Cai Booth o Lanelli, yn 9 oed ar Dachwedd 27ain. Mae Cai yn fab i Nia, gynt o Garnwen, Llangynin. Cariad mawr i ti, Cai wrth Grannie, Grampa a Li.



Penblwydd Hapus i Elspeth Scott Robinson yn 9 oed ar Hydref 23ain ac i'w brawd, Taliesin a oedd yn 12 oed ar Fehefin 3ydd. Maent yn blant i Siriol, gynt o Garnwen, Llangynin. Cariad mawr wrth Grannie, Grampa a Li.




Penblwydd hapus i Bobby Smith yn 1 oed ar y 1af o Dachwedd, mab bach Christey ac Annie, Ribena, Grondre, Clunderwen. Ŵyr i Wendy (Gu) Smith a Derri a Davey. Cariad mawr wrth y teulu.



Penblwydd hapus i Albie Noa Kirkwood, Llain Drygain, Crymych a oedd yn 1 oed ar Dachwedd 23ain. Mab bach Duncan a Jemma, ŵyr i Jean a Roy Phillips, nai a chefnder cariadus. Cariad mawr wrth bawb xxx



Penblwydd hapus iawn i'r ddwy chwaer yma o Feisgyn. Fe fydd Efa-Grug yn 12 oed ar y 27ain o Dachwedd a'i chwaer Mari Elli yn 10 oed ar yr 2il o Ragfyr. Cariad mawr wrth, Mami, Dadi, Betsi Haf, Mamgu a Geraint, Carreglwyd, Llangynin a Hen-Ddadcu, Tymore, Llangynin. xxx



Penblwydd Hapus i Ffion Leeke o'r Bontfaen a fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 7 oed ar Ionawr 2ail. Daw'r cyfarchion oddiwrth Dadcu a Nain (Ryland a Beti-Wyn James), Anti Iona ac Wncwl Ceri.

OWEN PHILLIPS
Llanddewi Efelffre
SAER COED
Ffôn Symudol:
07919 524569

G&S Llewellyn a'i Mab
Contractwyr Amaethyddol
Pen-y-Cwm, Llandysilio
Clunderwen. SA66 7TX
Ffon: 01437 563320

Olew Oil
Trefigin
sef. 1985 est. 1985
Y Gwasanaeth sy'n Gwresogi
TANWYDD TŶ
DERV
DISEL FFERM
LIWB OLEW
HEATING OIL
DERV
FARM DIESEL
LUBRICANTS
Warm to our Service
Cwmni annibynnol, teuluol, lleol, Cymraeg
(01239) 881630
www.trefigin.cymru
(01239) 881282


LYNDON GEORGE

ARBENIGWR LAND ROVER ANNIBYNNOL

MOT

♦CEIR ♦BEICIAU MODUR ♦FANIAU ♦4x4

**Offer Diagnostig Diweddaraf**





**Arbennigwyr Land Rover yn San Clêr, Sir Gaerfyrddin**

Yr ydym yn arbenigo mewn gwasanaeth, rhannau spâr, diagnosis ac atgyweiro pob model o Land Rover.

Gyda dros 20 mlynedd o brofiad yn gwasanaethu Land Rover, yn cyflogi tîm gwybodus sydd yn gwneud yn siwr fod eich Land Rover chi yn mynd cystal â newydd.

♦RHANNAU SPAR ♦GWASANAETH ♦TEIARS ♦BATRIS♦WELDIO ♦TRACIO PEDAIR OLWYN ♦TYMHERU AER

**Ffôn: 01994 232960 ♦ Symudol: 07968 868313**

Garej Blaenwaun cyf., Heol yr Orsaf, San Clêr. SA33 4BP

**FFERYLLFA STRYD FAWR ARBERTH**

**39 Stryd Fawr, SA67 7AS**

**Ar agor:**

**Dydd Llun i ddydd Gwener 9yb - 6yh**

**Dydd Sadwrn 9yb - 6yh**

**Dydd Sul: 10yb - 4yp**

**Gŵyl y Banc - ar gau**

**01834 860486**

Jones Login
Teithiau o Safon
Quality Coach Travel

**Login
Hendygwyn
Sir Gaerfyrddin
SA34 0UX
Ffôn: 01437 563277
www.joneslogin.co.uk**




| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Rhagfyr 2024** | | |
| Sad 7 | Canolfan Arddio Y'r Hen Rheiffordd (Siopa Nadolig) | 1 |
| Sad 14 | *Sioe Gerdd Hamilton, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Chwefror 2025** | | |
| Llun 10 | **Gwesty Warner - Neuadd Alvaston, Swydd Caer** | 5* |
| **Mawrth 2025** | | |
| Sad 22 | *Sioe Gerdd Kinky Boots, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| **Ebrill 2025** | | |
| Sad 19 | *Sioe Gerdd Chitty Chitty Bang Bang, CMC* | 1 |
| Gwe 25 | **Torvill a Dean 'Our Last Dance' a Stratford upon Avon** | 2 |
| **Mai 2025** | | |
| Dyddiad i'w drefnu! | **Gerddi Highgrove a Chaerfaddon** | 2 |
| Sad 10 | *Sioe Gerdd Chicago, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 12 | **Caernarfon ac Ynys Môn** | 5* |
| Sad 17 | *Sioe Gerdd Only Fools & Horses, CMC* | 1 |
| Sad 17 | **Yr Alban - Perth a'r Canolbarth** | 7 |
| **Mehefin 2025** | | |
| Llun 9 | **Ardal y Peak District** | 5* |
| Mer 18 | **Diwrnod y Merched, Royal Ascot** | 3 |
| Sad 21 | *& Juliet, CMC* a Bae Caerdydd | 1 |
| Llun 30 | **Gwesty Warner, Nidd Hall, Swydd Efrog** | 5* |

| | | Nifer y dyddiau |
|---|---|---|
| **Gorffennaf 2025** | | |
| Gwe 4 a Sad 5 | *Oasis, Stadiwm Principality (Bws yn unig)* | 1 |
| Maw 22 a Mer 23 | Sioe Frenhinol Cymru | 1 |
| Iau 24 | **Sidmouth** | 5* |
| Sad 26 | *Sioe Gerdd Joseph a'I got amryliw, CMC* | 1 |
| **Awst 2025** | | |
| Llun 4 | **Eisteddfod a Chaer** | 6* |
| Gwe 8 | Eisteddfod | 1 |
| **Medi 2025** | | |
| Llun 1 | **Swydd Ceint, Gardd Lloegr** | 5* |
| Llun 15 | **Tai Hanesyddol a Gerddi y Gogledd Orllewin** | 5* |
| Gwe 20 | **Penwythnos Siopa Uwchsonig (Concorde)** | 2 |
| Llun 23 | **Iwerddon—Swydd Mayo** | 6* |
| **Hydref 2025** | | |
| Llun 6 | **Gwesty Warner, Cricket St. Thomas** | 5* |
| Llun 13 | **Ardal y Llynnoedd** | 5* |
| Sad 25 | *Sioe Warhorse, CMC* | 1 |
| **Tachwedd 2025** | | |
| Gwe 7 | **Twrci a Tinsel - Torquay** | 5* |
| Sad 15 | *Sioe Riverdance 30, Caerdydd* | 1 |
| Sad 29 | **Goleuadau Palas Blenheim a Windsor** | 2 |

2025 yw ein pen-blwydd yn 60 oed. Mae siawns o ennill Taleb Teithio ar bob taith yn ystod y flwyddyn.


***Gwasanaeth Dwrs i ddrws ar y teithiau yma / Archebwch ar lein nawr / Llyfryn 2025 ar gael nawr!**

CYFRES Wenfro

# Nadolig gwyn ...

**CYSTADLEUAETH Cyfle i un darllenydd lwcus ennill llyfr o gyfres Wenfro**

Mae Owen ac Olwen yn gobeithio am Nadolig gwyn eleni, ac mae'r ddau wedi creu llun hyfryd o Iet-wen dan garthen wen o eira, i fynd ar y cerdyn Nadolig. **Tybed faint o ddynion eira cyfeillgar sydd ar y cerdyn arbennig?**




**... a gwyrdd!**

**Anfonwch eich ateb at wenfro.cymru@gmail.com Dyddiad cau: 28/01/25**

Ateb Cystadleuaeth Mwyara a mwy!
£43 oedd gan Mam-gu Iet-wen wedi iddi werthu'r cyfan.

Bydd enw enillydd y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi cyn hir.

Mae Wenfro yn gynllun addysgol cynhwysfawr ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Cyhoeddir y gyfres gan Gomer/Atebol. **www.wenfro.cymru**

Ⓣ y testun a'r lluniau: Llinos Mair © 2024



# Bysiau Cwm Taf

*Gwyliau o safon am brisiau cystadleuol*



## Teithiau 2025

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwe 17eg Ionawr | ADUNIAD CWSMERIAID CWM TAF yn TORQUAY | £280 | 4 Diwrnod |
| Gwe 24ain Ionawr | DIRGELWCH Y LLOFRUDDIAETH YN Y CELTIC CAERNARFON | £285 | 3 Diwrnod |
| Gwe 31 ain Ionawr | PENWYTHNOS ARBENNIG YN WESTON SUPER MARE | £330 | 4 Diwrnod |
| Gwe 7fed Chwefror | BABBACOMBE, ABATY BUCKFAST a NEWTON ABBOT | £280 | 4 Diwrnod |
| Llun 17eg Chwefror | "BYWYD AR Y MOROEDD MAWR" YN LLANDUDNO | £535 | 5 Diwrnod |
| Sul 23ain Chwefror | GWYLIAU HAMDDENOL CLYD AR ARFORDIR YNYS WYTH | £455 | 5 Diwrnod |
| Gwe 28ain Chwefror | CLIVE a'i FFRINDIE yn GWESTY'r CELTIC CAERNARFON | £260 | 3 Diwrnod |
| Iau 6ed Mawrth | GEM RYGBI ALBAN v CYMRU YN CAEREDIN | £449 | 4 Diwrnod |
| Sul 9fed Mawrth | PENTREF DOC MARTIN, ARFORDIR CERNYW a ST AGNES | £415 | 5 Diwrnod |
| Llun 10fed Mawrth | *NEWYDD * GWYLIAU STAFELLOEDD SENGL yng NGAINT | £495 | 5 Diwrnod |
| Gwe 14eg Mawrth | PENWYTHNOS YN DINAS HYNAFOL EFROG | £340 | 4 Diwrnod |
| Gwe 21ain Mawrth | PAIGNTON a GERDDI BOTANEG BICTON | £335 | 4 Diwrnod |
| Gwe 28ain Mawrth | LOOE, ARFORDIR CERNYW a'r "EDEN PROJECT" | £340 | 4 Diwrnod |
| Llun 31ain Mawrth | RHYFEDDODAU WEYMOUTH a "JURASSIC COAST" | £445 | 5 Diwrnod |
| Llun 7fed Ebrill | LLANBERIS a RHEILFFYRDD RHAMANTUS GOGLEDD CYMRU | £555 | 5 Diwrnod |
| Sad 12fed Ebrill | BLAS o GYMRU o WESTY'r TYNEDALE LLANDUDNO | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 14eg Ebrill | TULIPS a MELINAU GWYNT YR ISELDIROEDD | £695 | 5 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS A (Seddi Gwaelod) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORVILLE & DEAN yn BIRMINGHAM BWS B (Seddi Uwch) | £320 | 3 Diwrnod |
| Gwe 25ain Ebrill | TORQUAY, TOTNES a taith llong ar yr Afon DART | £365 | 4 Diwrnod |
| Llun 28ain Ebrill | Yr HYFRYD SANDOWN ar YNYS WYTH | £465 | 5 Diwrnod |
| Llun 5ed Mai | "Wedgwood Wonders, Trentham Treats & Cheshire Charms" | £580 | 5 Diwrnod |
| Maw 6ed Mai | GUERNSEY | £1,100 | 6 Diwrnod |
| Llun 12fed Mai | Manchester - Concorde, Lowry a Gardd Godidog RHS | £505 | 5 Diwrnod |
| Sul 18fed Mai | "CALL THE MIDWIFE" a DINAS HYNAFOL CAINT | £545 | 5 Diwrnod |
| Llun 19eg Mai | TAITH DDIRGEL MIS MAI | £575 | 5 Diwrnod |
| Gwe 23ain Mai | SIOE FLODAU CHELSEA | £440 | 3 Diwrnod |
| Sul 25ain Mai | TAITH ANTUR FAWREDDOG yr ALBAN | £1,750 | 12 Diwrnod |
| Gwe 30ain Mai | PENWYTHNOS "ABBA VOYAGE" yn LLUNDAIN | £410 | 3 Diwrnod |
| Gwe 6ed Mehefin | MINEHEAD a RHEILFFORDD "WEST SOMERSET" | £455 | 4 Diwrnod |
| Sul 8fed Mehefin | MEYSYDD y BRWYDRO yn NORMANDI | £825 | 5 Diwrnod |
| Sul 15fed Mehefin | GOGONEDDAU CUDD yr IWERDDON | £775 | 6 Diwrnod |
| Gwe 20fed Mehefin | GERDDI a GRAWNWIN SURREY | £440 | 4 Diwrnod |
| Llun 23ain Mehefin | CASTLE HOWARD a DINAS HYNAFOL EFROG | £535 | 5 Diwrnod |
| Gwe 27ain Mehefin | WEYMOUTH | £405 | 4 Diwrnod |
| Maw 1af Gorffennaf | LLANDUDNO a YNYS SEIRIOL YNYS MON | £585 | 5 Diwrnod |
| Sul 6ed Gorffennaf | MORDAITH ar AFONYDD RHINE a MOSELLE yn yr ALMAEN | £1,950 | 9 Diwrnod |
| Sad 12fed Gorffennaf | CESTYLL a GWARTHEG UCHELDIR YR ALBAN | £720 | 6 Diwrnod |
| Iau 17eg Gorffennaf | Taith Fyr I'r COTSWOLDS | £310 | 3 Diwrnod |
| Llun 21ain Gorffennaf | GORORAU CYMRU | £520 | 5 Diwrnod |
| Sul 27ain Gorffennaf | AGER, JIN a'r NEW FOREST yn HAMPSHIRE | £530 | 5 Diwrnod |
| Gwe 1af Awst | Taith i Stiwdio yr enwog CORONATION STREET | £380 | 4 Diwrnod |

Am fanylion llawn, ffoniwch am ein Llyfryn Gwyliau

Bysiau Cwm Taf ar gyfer eich holl anghenion - ffoniwch a gadewch y gweddill i ni

01994 240908 / www.tafvalleycoaches.co.uk



# Cyfarchion yr Ŵyl



Pob dymuniad da dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. **Tony a Meinir Eynon a'r teulu, Penbontbren, Cwm Miles.**

Dymuna **Brian John, Rose Cottage, Cwmfelin Mynach** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w gwsmeriaid, teulu a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl berthnasau, cymdogion a ffrindiau. Pob hwyl dros yr Ŵyl. **Rose ac Elgar Saer, 10 Stryd y Parc, Hendygwyn.**



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i deulu a ffrindiau oll. **Dewi Griffiths, Cartref Clyd, Lôn Hafren, San Clêr.**

Dymuna **Mefin Lewis, Huan Aur, Login** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, cymdogion a ffrindiau i gyd.

Dymuna **Meurig a Pat Davies, Llygad yr Haul, Gerddi'r Ffynnon, Hendygwyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Cyfarchion y Nadolig i'r teulu, cymdogion a ffrindiau oll oddi wrth **Grismond a Mary Lewis, Llwynllwyd.**

Dymuna **Marlene Lewis, Hafan Glyd, Pwlltrap** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau oddi wrth **Gareth ac Angela Murray, 2 Piccadilly, Llanboidy.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n teulu, ffrindiau a chymdogion. **Gwynlais, Mary a Buddug, Merlais.**

Dymuna **Wyn a Meirwen Evans** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Rodney ac Eiry Williams, Yr Hen Ffatri Bop, Llanboidy.**

Hoffai Rodney ddiolch i bawb am y cardiau a'r dymuniadau da ar ei ymddeoliad o'r Siop.



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, ffrindiau a chymdogion - **Merle Evans, Delfryn, Llanboidy.**

Nadolig Llawen a iach a dymuniadau gorau am y Flwyddyn Newydd i bawb. **Brenda Bowen a'r teulu, Blaen-dôl-Frwynog, Llandysilio.**

Dymunaf i **Susan, Maes y Werin, Llanboidy** gyfarchion y tymor i'm teulu, ffrindiau a chydnabod. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm cymdogion, a ffrindiau oll. **Elizabeth White, Gerddi Trefychan, Hendygwyn.**

Dymuna **Teulu, 25 Gorsfach, Pwlltrap** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau.

Dymuna **Ernest a Janet Jones, Heol Bronwydd, Caerfyrddin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, cymdogion a ffrindiau.




Dymuna **Roy Reynolds, Tymore, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb o'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

Cyfarchion y tymor a dymuniadau gorau i'm ffrindiau, a chymdogion i gyd wrth **Sally Davies, Lluest, Pwll Trap.**

Dymuna **Eurfyl, Jill, a'r teulu Lluest, Llanglydwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

Cyfarchion y tymor i'r teulu, cymdogion a ffrindiau - oddi wrth **Llinos a Geraint, Carreglwyd, Llangynin.**

Cyfarchion yr Ŵyl i'n cymdogion, ffrindau a'r teulu oll. Oddi wrth **Eileen John, Cartref Waungron a Graham.**

Dymuna **Margaret a Dion, Cilowen, Login** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a pherthnasau.

Dymuna **Elfed ac Eifiona Lewis, Llangynin** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion.

**Canolfan Gymdeithasol Ffynnonwen**
Cyfarchion oddi wrth bwyllgor ac aelodau'r Ganolfan. Nadolig Llawen a phob bendith yn y Flwyddyn Newydd.

Dymuna **Nansi Evans, Penybont, Cwmfelin Mynach** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.

Dymuna **Carwyn, Sarah, Josh, Jac ac Ellie** Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chwsmeriaid .

Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Roy Llewellyn, Bro Gronw, Cwmfelin Mynach.**



Cyfarchion y Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion - oddi wrth **Don a Rita James, Hafan Hedd, Pwlltrap**

Dymuna **Norah Heseltine** ddanfon cyfarchion yr Ŵyl i'w pherthnasau a ffrindau.

Dymuna **Ann, Simon, Faith, Carys, Dafydd, Emily a Noah, Carydd, Clunderwen** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion.

Nadolig Llawen a dedwydd i'n cymdogion, teuluoedd a ffrindiau oddi wrth **Anthony, Ceirios a'r teulu, Efailwen.**

Dymuna **Dorothy Jenkins, Gwynfa, Hendygwyn** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mwynhewch yr Ŵyl.

Dymuna **Tegwen James, Penybryn, Blaenwaun** Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion i gyd.



Dymuna **Tudur, Rhodri a Ffion, Gwyndaf a Nia** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Y Cardi Bach.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau -
**Richard a Non Murray a'r teulu, Maes-y-Ffynnon, Login.**

Cyfarchion y tymor i'm ffrindiau, cymdogion a theulu.
**Mel Jenkins, Ger y nant, Hendygwyn.**

Hoffai **Wyn Owens. Llwynhelyg, Mynachlogddu** ddiolch i'w deulu, ffrindiau a holl ddarllenwyr Y Cardi Bach. Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

Mae'r **Cyng. Jean ac Ambrose Lewis** yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i drigolion Ward Trelech, cymdogion, ffrinidau a pherthnasau.

Diolch am bob cefnogaeth yn ystod y flwyddyn.

Os oes angen cymorth plis cysylltwch ar 01994 484334 neu JeanLewis@carmarthenshire.gov.uk



***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda***
oddi wrth
*Y Cynghorydd a Mrs Dorian Phillips*
*Dolau Gronw, Llanboidy Hendygwyn ar Daf*
Ffôn: 01994 448435
bdjphillips@carmarthenshire.gov.uk

Cyfarchion Nadolig a Blwyddyn Newydd Dda i ffrindiau a chymdogion oll - **John Arfon Cilhaul, Hendygwyn ar Daf.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'm holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion. Diolch i bawb am eu caredigrwydd. **Doreen Adams, Llain Alaw, HDG.**

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i berthnasau, cymdogion a ffrindiau -
**Geraint a Beti James, Coedllys.**

Dymuna **William John a Haulwen, Stag, Llanboidy** Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w perthnasau a ffrndiau oll.

# Swyddogion Eisteddfod Genedlaethol 2026







Llongyfarchiadau mawr i John Davies, Carys Ifan, Cris Tomos, Non Davies a Tegryn Jones ar gael eu hethol ar Bwyllgor Gwaith Eisteddfod 2026. Tîm lleol cryf yn ardal Sir Benfro, de Ceredigion a gorllewin Sir Gâr.

John Davies yw Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith; Carys Ifan sydd wedi'i hethol yn Is-gadeirydd Diwylliannol; Cris Tomos sy'n gyfrifol am y Gronfa Leol; Ysgrifennydd y Pwyllgor Gwaith yw Non Davies; Tegryn Jones wedi'i ethol yn Is-gadeirydd Strategol yr Eisteddfod. Pob dymuniad da iddynt.

Cynhelir yr Eisteddfod Genedlaethol yn ardal Llantwd o 1-8 Awst, 2026.

---

*Clwb Rygbi San Cler - parhad o dudalen 43*
Creodd hyn gyfleoedd rheolaidd ac yn y pen draw fe wnaethom dorri penderfyniad y tim cartref gyda cheisiau pellach gan Gino Setero (2), Dafydd Rees a Will Icke, Ciciodd Che Thomas 3 trosiad a dwy gosb i selio buddugoliaeth haeddiannol 17 – 37.

Rydym bellach yn yr ail safle yng nghynghrair Adran 1 y Gorllewin, wrth i ni edrych ymlaen at gêm adref yn erbyn Cydweli ar Tachwedd 16eg, cyn teithio i Aberystwyth ar Tachwedd 30ain. Ein gêm olaf yn 2024 fydd adref yn erbyn Wanarlwydd gartref ar Rhagfyr 14eg.

Mae'n rhaid talu teyrnged i'r gefnogaeth arbennig rydym yn ei gael yn ein gemau adref ac i ffwrdd, sydd unwaith eto wedi bod yn wych y tymor hwn ac mae'n sicr yn cael effaith gadarnhaol ar ein chwaraewyr a'n canlyniadau. Diolch!

**Tîm Ieuenctid**
Mae ein tîm ieuenctid ar frig tabl Cynghrair Gorllewin Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd. Mae'r tîm hyfforddi a'r chwaraewyr yn haeddu pob clod am eu hymdrechion y tymor hwn. Daeth ein rhediad diguro y tymor hwn i ben yn erbyn Quins Caerfyrddin yn y Cwpan Cenedlaethol - gweler yr adroddiad drosodd.

Hydref 19eg - Porth Tywyn 7 San Cler 45
Tachwedd 2il (Cwpan - GMG) San Cler 31 Athletic Caerfyrddin 26

Ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 9fed fe wnaethom groesawu Quins Caerfyrddin i Barc Griffith Jones ar gyfer Rownd 1 y Cwpan Cenedlaethol. Roedd hon yn ornest dynn gyda'r Seintiau yn arwain 8 - 7 ar hanner amser. Gwnaeth y Quins, sy'n dîm cryf iawn, fynd ar y blaen yn yr ail hanner gan ennill 11 - 24 yn y pen draw, i symud ymlaen i'r rownd nesaf. Ymdrech dda gan y bechgyn a byddant yn ceisio taro'n ôl pan fyddant yn teithio i chwarae'r Quins yn y gynghrair ymhen rhai wythnosau.

**Tim Datblygu**
Mae ein tim datblygu wedi chwarae un gêm yn ystod mis Hydref, i ffwrdd yn erbyn tim cryf Porth Tywyn, gan golli 44 - 21. Ymdrech dda gan y bechgyn. Trefnir ambell gêm cyn y Nadolig gan gynnwys Trimsaran i ffwrdd ar Tachwedd 30ain, gartref yn erbyn Porth Tywyn ar Rhagfyr 7fed ac erbyn Felinfoel ar Rhagfyr 14eg.

Misoedd da o waith gan y clwb ac rydym am ddiolch i'r chwaraewyr, yr hyfforddwyr, noddwyr a'r cefnogwyr ar draws ein hadran hŷn, ieuenctid, iau a mini.
*Gwyndaf Williams* *Lluniau: Chris Rees*





*Clwb Rygbi Hendygwyn - parhad o dudalen 44*

Tachwedd 9fed - i ffwrdd erbyn Nantgaredig. Gêm agos eto ond y tîm yn chwarae gyda'u gilydd yn well gan ennill 20-25.

Menywod

Yr un hen stori yw hi gwaetha'r modd, timoedd yn tynnu allan achos bod ddim digon o fenywod ar gael i chwarae. Dwy gêm maent wedi chwarae yn ddiweddar, adref yn erbyn Caernarfon gan ennill 24-7 ac i ffwrdd yn erbyn Bonymaen gan ennill 20-36. Marged Williams a Mila Roberts, y ddwy chwaraewraig sydd yn sefyll allan, gyda'r capten Sally Windsor yn meddwl bod hi'n gallu cicio pêl, ond yn hala'r bêl drwy ffenestri y caban!!

Mae timau merched dan 12 a dan 14 wedi cael dechrau gwych i'r tymor drwy ennill pob gêm hyd yn hyn.

*Suzanne Davies*


Tîm dan 12


Tîm dan 14 gyda merched East Swansea Eagles

## Clwb Rygbi San Clêr

**Tim Cyntaf**

Teithiom i Bontarddulais ar Hydref 12fed gan geisio ymestyn ein rhediad da yn Adran 1 y Gorllewin. Dechreuom ni'n dda dan arweiniad ein capten newydd sef Tomos Williams, gan fod ein capten arferol sef Jac Howells yn cynrychioli Quins Caerfyrddin yng nghystadleuaeth Super Rygbi Cymru. Mae'r clwb yn dymuno'n dda i Jac dros yr wythnosau nesaf wrth iddo gamu lan lefel yn uwch yn dilyn cyfnod gwych o chwarae y tymor hwn a'r tymor diwethaf. Dechreuodd y bechgyn yn dda gan sicrhau pwynt bonws yn yr hanner cyntaf gan ennill yn erbyn gwrthwynebwyr caled 17 – 32. Ceisiau gan Gino Setaro (2), Dafydd Waters a Brandon Davies, tri trosiad a dau cic gosb gan Che Thomas.

Ar Hydref 19eg, fe wnaethom groesawu Penclawdd a oedd ar waelod yr adran, er yn ôl y disgwyl, roedd hon yn her gadarn adref. Yn y pen draw, fe wnaethom ennill 25 – 19, ond am yr ail wythnos yn olynol, fe wnaethom adael ein gwrthwynebwyr yn ôl i'r gêm ar ôl yr egwyl. Fodd bynnag, mae pwyntiau gwerthfawr wedi ei sicrhau. Ceisiau gan Che Thomas, Dafydd Waters a Gino Setaro (2) - un trosiad ac un gosb gan Che Thomas.

Gan gymryd hoe o chwarae yn y gynghrair, fe deithiom ni i Aberystwyth ar Tachwedd 26ain ar gyfer Rownd 1 Cwpan Cenedlaethol Adran 1. Gyda rhai chwaraewyr ddim ar gael, roedd yn gyfle i brofi'r garfan ac er gwaethaf y daith hir, fe ddechreuon ni'r gem ar garlam a mynd ar y blaen 0 - 20 drwy chwarae rygbi ardderchog. Fodd bynnag, fe wnaeth cic gosb a tros gais yn hwyr yn yr hanner cyntaf, adael Aberystwyth nôl mewn i'r gêm. Dangosodd Aber, a oedd ar frig y gynghrair yn ein hadran, eu gwytnwch a'u hansawdd drwy sgorio ceisiau da gyda'u blaenwyr yn dominyddu yn ystod cyfnodau allweddol o'r gêm. Wedi dweud hynny, cawsom gyfleoedd ein hunain, ond yn wahanol i'r hanner cyntaf, gwnaethom fethu groesi'r llinell gais ac fe gostiodd ambell gamgymeriad yn ddrud i ni. Sgôr terfynol Aberystwyth 35 – San Clêr 23. Sgorwyr y Seintiau oedd Dafydd Waters (2) a Gino Seterao, dau gic gosb a throsiad gan Dafydd Waters.

Wrth ddychwelyd i chwarae yn y gynghrair, roedd taith i Borth Tywyn yn ein haros ar Tachwedd 2il. Dechreuodd Porth Tywyn yn dda gan fynd 14 - 0 ar y blaen a bu'n rhaid i ni weithio'n galed i ddod nôl mewn i'r gêm. Galluogodd ein cefnwyr ni i frwydro nol gyda rhai ceisiau gwych gan Dafydd Waters (2), Jack Howells, Gino Setaro, Will Icke (2) a Che Thomas 1 gyda Che yn trosi 3 cais a chicio 2 gosb. Roedd hon yn gêm gyflym, gwych o rygbi a chwaraewyd ar ddwysedd uchel gan y ddau dîm ac roedd yn rhaid i ni fod ar ein gorau I gymryd y pwyntiau mwyaf posibl ar y diwrnod. Sgôr terfynol 37-45.

Ar ddydd Sadwrn, Tachwedd 9fed, fe deithiom ni i Felinfoel ar gyfer ein gêm gynghrair nesaf a'n 3ydd gêm oddi cartref yn olynol. Yn yr hanner cyntaf gwelwyd y Seintiau'n dechrau'n gryf, ac wedi iddynt fethu rhai cyfleoedd, roeddent ar ei hol hi 10 – 3. Wrth i hanner amser agosáu torrodd Will Icke drwodd gan sgorio dan y pyst, a droswyd gan Che Thomas i wneud y sgor yn 10 -10 ar yr egwyl. Cafodd ein haddewid yn yr hanner cyntaf ei wobrwyo yn yr ail hanner wrth i ni gadw meddiantl a dechreuodd ein darn gosod ddominyddu.

*parhad ar dudalen 42*



# CHWARAEON

## Clwb Pêl-droed Llanboidy



**Tymor 2024-25**

Mae tymor 2024-25 yn mynd yn ei flaen i Glwb Pêl-droed Llanboidy, gyda'r tîm cyntaf a'r ail dîm wedi chwarae nifer o gemau yn ystod y mis diwethaf. Rydym hefyd yn falch bod ein hadran iau yn parhau, ac yn edrych ymlaen at weld datblygiad y timoedd iau dros y tymor.

**Tîm 1af**

Mae ein tîm cyntaf sydd yn chwarae yn Adran 1 Ceredigion am 2024-25, wedi chwarae pump gêm - ennill dau, colli dau ac un gêm gyfartal.

Hydref

12fed: Llanboidy 1-3 Llandysul (Daf Jones)
19eg: Crannog 2-3 Llanboidy (Dion Morgan, Harry Gillard, Ifan Jones)
26ain: Pencader 2-3 Llanboidy (Jac Haley, Geth Scourfield, Calum Syddall)

Tachwedd

2il: Llechryd 3-1 Llanboidy (Ryan Pearce)
9fed: Aberteifi 3-3 Llanboidy (Calum Syddall, Daf Jones, Geth Scourfield)

**2il Dîm**

Mae'r ail dîm yn chwarae yn Adran 3 Ceredigion yn nhymor 2024-25 o dan arweinyddiaeth Chris Bowen. Pump gêm mae'r ail dîm hefyd wedi chwarae dros y mis diwethaf. Ennill dau a cholli tri.

Hydref

12fed: Llandudoch 1-0 Llanboidy
19eg: Tregaron 7-1 Llanboidy (Lewis Thompson)
26ain: Llanboidy 4-1 Pencader (Will Abbott, Lewis Thompson x 3)

Tachwedd

2il: Llanboidy 4-1 Crymych (Rhodri Lewis, Chris Bowen, Phil Howells, Will Abbott)
9fed: Llanboidy 1-7 Llandudoch (Chris Bowen)

Bydd ein hymarferion ar gyfer yr Hydref bob nos Lun ar Astro Canolfan Hamdden Caerfyrddin rhwng 8-9yh. Croeso cynnes i bawb.

**Adran Iau**

Mae'r tymor hefyd yn parhau i'n hadran iau. Diolch yn fawr iawn i'r holl hyfforddwyr sydd wedi bodloni cynorthwyo'r amryw o dimoedd dros y flwyddyn diwethaf, yn ogystal â dechrau ymarferion dros yr haf. Mae nifer o gemau wedi' chwarae ar foreau dydd Sadwrn, a braf gweld canlyniadau positif iawn.

Diolch yn fawr iawn i'n holl noddwyr - rydym wir yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth barhaol i'r clwb. Gan ei bod yn dymor newydd, rydym o hyd yn chwilio am noddwyr newydd, felly os oes diddordeb gyda chi; cysylltwch. Am fwy o wybodaeth, dilynwch neu cysylltwch gyda ni ar ein cyfryngau cymdeithasol. *Rhodri Lewis*

***Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd!***



Tîm dan 12



Tîm dan 10 (1)



Tîm dan 10 (2)

## Clwb Rygbi Hendygwyn

**Tîm cyntaf**

Medi 28ain - Cawsom gêm galed iawn yn erbyn Betws sydd ar waelod y gyngrhair, ond mae'n anodd credu sut maent yn y safle hynny gan ei bod yn chwarae rygbi safonol. Fe wnaethom fanteiso ar y gwynt cryf yn yr hanner cyntaf gan fynd ar y blaen 13-7. Gwnaethom ymestyn ein mantais yn yr ail hanner ac ennill 31-13 yn y diwedd.

Hydref 5ed - Gêm gwpan yn erbyn Resolven oedd gyda ni nesa. Roedd tîm cryf yn ein herbyn gyda'r blaenwyr yn rheoli'r gem am gyfnodau hir. Colli wnaethom 13-28.

Hydref 12fed - I ffwrdd yn erbyn Athletic Caerfyrddin. Gêm gyffrous gyda tîm ifanc yr Athletic yn dangos y ffordd, ond yr hen bennau'n dod ymlaen yn yr ail hanner. Colli yn rhacs 38-19.
Dim gemau ar Hydref 19eg a 26ain oherwydd bod y Mumbles wedi symud cyngrhair a gemau cwpan yn cael eu chwarae.

Tachwedd 2il - Chwarae adref yn erbyn Aberdaugleddau. Gem gyffrous iawn gyda ni'n amddiffyn ar linell gais ein hunan am 10 munud ola'r gem. Llwyddodd y bechgyn i ddal eu tir gan ennill 14-10 diolch byth!.

*parhad ar dudalen 43*